

Cardiff
Caerdydd

# Cynllun Llesiant Caerdydd 2018-2023

## Adroddiad Blynyddol 2019/20



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Rhagair** | 4 |
| **Cyflwyniad** | 5 |
| **Covid-19: Ymateb Partneriaeth** | 6 |
| **Amcanion Llesiant Caerdydd** | |
| 1 - Prifddinas sy'n gweithio i Gymru | 10 |
| 2 - Caerdydd yn tyfu mewn ffordd gadarn | 16 |
| 3 - Cymunedau diogel, hyderus a grymus | 22 |
| 4 - Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu | 29 |
| 5 - Cefnogi pobl allan o dlodi | 35 |
| 6 - Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn | 41 |
| 7 - Moderneiddio ac integreiddio ein gwasanaethau cyhoeddus | 47 |


"Gyda'n gilydd gallwn wneud Caerdydd yn lle gwych i fyw ynddo ar gyfer ein trigolion i gyd"

# Rhagair

Oherwydd Covid-19, mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd wedi gweithio gyda'i gilydd ar raddfa nas gwelwyd erioed o'r blaen. Mae Ysbyty Calon y Ddraig wedi'i chreu ac mae gwestyau wedi'u hail-bwrpasu er mwyn rhoi cartref i'r digartref ac i'w hamddiffyn. Roedd menter wirfoddoli 'Gyda'n Gilydd Dros Gaerdydd' yn sicrhau bod cyflenwadau bwyd a meddygol yn cyrraedd y rhai mwyaf agored i niwed ac mae Ceidwaid Parciau wedi patrolio gyda swyddogion o Heddlu De Cymru i sicrhau y cedwir at reolau cadw pellter cymdeithasol ym mharciau'r ddinas.

Nid yw gwaith partneriaeth sydd mor gryf yn digwydd yn naturiol, yn hytrach, mae'n seiliedig ar berthnasoedd wedi'u creu trwy Fwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus (BGC) Caerdydd dros nifer o flynyddoedd. Mae'r adroddiad hwn yn nodi ymateb y BGC i argyfwng Covid-19 a'i waith yn ystod y flwyddyn a arweiniodd ato. Mae llwyddiannau diweddar yn cynnwys arloesi gyda Siarter Teithio'n Iach i Staff gan y BGC a'r gwaith o oruchwylio mesurau i fynd i'r afael ag ansawdd aer yng nghanol y ddinas. Ac eleni lansiwyd 'Cynllun Symud Mwy, Bwyta'n Dda 2020-2023' a chydnabyddiaeth genedlaethol i adroddiad cysylltiedig Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd.

Hefyd yn ystod 2019/20, bu llawer o gynnydd o ran sicrhau gwasanaethau iechyd a chymdeithasol integredig sy'n lleol ac yn seiliedig ar gryfderau, ac yn yr un modd, gynnydd o ran creu dinas o Gyfleoedd i'r Henoed a adlewyrchwyd wrth i'r BGC ymweld â Chanolfan Ddydd y Rhodfa Fawr (Grand Avenue) ar gyfer gofal dementia arbenigol. Mae cysylltiadau'n cael eu gwneud rhwng y gwasanaeth carchar, Gwasanaethau i Mewn i Waith y Cyngor a'r adran tai i leihau'r achosion o aildroseddu yn dilyn cyfarfod y BGC yn CEM (Carchar Ei Mawrhydi) Caerdydd. Mae llwyddiant parhaus o ran sicrhau nad oes angen i unrhyw un gysgu ar y stryd am un nos. A sefydlwyd Bwrdd Partneriaeth Newid yn yr Hinsawdd y BGC sef pwynt cydlynu canolog ar gyfer gweithredu er mwyn lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Mae'r pandemig wedi cael effaith fawr ar bob agwedd ar fywyd y ddinas a gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, wrth i ni fwrw'n golygon tuag at adferiad, bydd gwaith partneriaeth yn parhau i gryfhau, gan osod y sylfeini ar gyfer "normal newydd". Parheir i wneud gwaith ar y cyd yn gyson hefyd er mwyn sicrhau dyfodol cryfach, tecach a gwyrddach i Gaerdydd.



**Huw Thomas**
**Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd**



**Charles Janczewski**
**Is-gadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd**

> "Wrth i ni fwrw'n golygon tuag at adferiad, bydd gwaith partneriaeth yn parhau i gryfhau, gan osod y sylfeini ar gyfer "normal newydd""

# Cyflwyniad

## Ynglŷn ag Adroddiad Blynyddol BGC Caerdydd

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn amlinellu'r gwaith a wnaed gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd rhwng mis Mehefin 2019 a mis Mehefin 2020 i wneud cynnydd yn erbyn Cynllun Llesiant Caerdydd 2018-23.

Gohiriwyd cyhoeddi'r adroddiad oherwydd Covid-19 ac mae'r adroddiad yn cynnwys trosolwg o'r ymateb partneriaeth i'r argyfwng.

## Beth yw Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd?

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd (BGC Caerdydd) yn dwyn ynghyd arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus y ddinas a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, gan gynnwys y rhai o'r Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd, Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru, y Trydydd Sector a'r gwasanaethau Tân, Heddlu a Phrawf. Diben y BGC yw gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Caerdydd drwy atgyfnerthu cydweithio ar draws gwasanaethau cyhoeddus y ddinas.

## Beth yw Cynllun Llesiant?

Mae'r Cynllun Llesiant yn nodi blaenoriaethau BGC Caerdydd o ran camau gweithredu ar gyfer 2018-2023, a thu hwnt. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar y meysydd darparu gwasanaethau cyhoeddus sydd wirioneddol angen gwaith partneriaeth rhwng gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol y ddinas, a chyda dinasyddion Caerdydd.

Felly, dylid ystyried y Cynllun Llesiant fel dogfen i ategu cynlluniau strategol pob aelod o'r BGC, gan ganolbwyntio ar sicrhau 'mantais gydweithredol' mewn rhannau gwahanol o fywyd y ddinas a gwasanaethau cyhoeddus sy'n treiddio drwy bob gwasanaeth cyhoeddus a chymunedol.

Mae'r Cynllun yn cynnwys Amcanion Llesiant, blaenoriaethau lefel uchel y mae BGC Caerdydd wedi nodi fel y rhai pwysicaf. Mae hefyd yn cynnwys 'ymrwymiadau', neu gamau ymarferol y bydd gwasanaethau cyhoeddus y ddinas, ar y cyd, yn eu cyflawni dros 5 mlynedd y cynllun. Amcanion Llesiant y BGC yw:

1. Prifddinas sy'n gweithio dros Gymru
2. Caerdydd yn tyfu mewn ffordd gadarn
3. Cymunedau diogel, hyderus a grymus
4. Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu
5. Cefnogi pobl allan o dlodi
6. Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn
7. Moderneiddio ac integreiddio ein gwasanaethau cyhoeddus

## Sut caiff y Cynllun Llesiant ei gyflawni?

Mae'r BGC wedi rhoi sawl rhaglen waith ar waith er mwyn cyflawni yn y meysydd hynny lle mae angen gweithio mewn partneriaeth ar draws y sector cyhoeddus er mwyn sicrhau gwelliant sylfaenol.

## Sut caiff cynnydd ei fesur?

Adroddir ar y cynnydd a gaiff ei wneud o ran cyflawni'r Cynllun Llesiant mewn dwy ffordd:

- Diweddariad ar y cynnydd a wnaed o ran cyflawni ymrwymiadau'r project neu brojectau ar y cyd a nodwyd yn y Cynllun Llesiant, sydd wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol hwn.
- Diweddariad ar berfformiad y ddinas yn erbyn cyfres o ddangosyddion canlyniadau a nodwyd yng Nghynllun Llesiant BGC Caerdydd, sydd wedi'i gynnwys yn y ddogfen hon ac yn adroddiad 2020 Caerdydd.

# Covid-19

## Arwain ymateb dinas gyfan i Covid-19

Ni all un gwasanaeth cyhoeddus weithredu ar ei ben ei hun i fynd i'r afael ag argyfwng mor ddifrifol a heriol â Covid-19. Mae wedi gofyn am, ac yn parhau i ofyn am, ymateb system gyfan gan wasanaethau cyhoeddus y ddinas. O ddechrau'r argyfwng, mae Caerdydd wedi mabwysiadu dull partneriaeth o'r fath:

- Ar 13 Mawrth 2020, galwodd Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd Caerdydd a'r Fro Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro a rhanddeiliaid allweddol eraill gan gynnwys sefydliadau addysg uwch y ddinas ynghyd ar gyfer cyfarfod i amlinellu natur y clefyd, ei effaith bosibl ac i ddechrau llunio ymateb traws-ddinas.
- Trwy gydol mis Mawrth a mis Ebrill, parhaodd grwpiau gweithredol Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd â'r Fro i gyfarfod ar y cyd, gyda'r cyfarfodydd wedi'u cadeirio gan Gyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, i sicrhau dull ar y cyd o fynd i'r afael â'r argyfwng.
- O 12 Mai 2020, galwodd Arweinydd Cyngor Caerdydd a Chadeirydd BGC Caerdydd ar i BGC Caerdydd ddod ynghyd eto i reoli proses y ddinas o bontio o'r cyfnod cloi i'r broses gydgysylltiedig o 'ailddechrau' gwasanaethau cyhoeddus y ddinas. Bydd y BGC yn parhau i gyfarfod yn fisol i oruchwylio ymateb y bartneriaeth i'r argyfwng.

Mae'r don gychwynnol o heintiau a marwolaethau wedi mynd heibio ac mae'r ddinas bellach mewn cyfnod gwahanol o'r pandemig, gyda bywyd y ddinas a gwasanaethau cyhoeddus yn dychwelyd i ryw fath o "normalrwydd".

Bu BGC Caerdydd yn glir bod y ddinas ymhell o fod allan o'r argyfwng ac y bydd angen ymdrech ar y cyd parhaus er mwyn mynd i'r afael ag effaith y clefyd, er mwyn ymateb i effaith yr argyfwng economaidd ac er mwyn arwain proses hirdymor y ddinas o adfer ac adnewyddu.

Mae'r ymateb i'r argyfwng wedi cynnwys gwaith partneriaeth ar raddfa nas gwelwyd erioed o'r blaen yng Nghaerdydd. Ceir enghreifftiau o'r gwaith ar y cyd rhwng aelodau BGC Caerdydd isod.

## Ysbyty Calon y Ddraig

Mewn ychydig dros bythefnos, adeiladwyd ysbyty brys dros dro yn Stadiwm Mileniwm Cymru i baratoi cymunedau Caerdydd a Bro Morgannwg a Byrddau Iechyd eraill ar gyfer cynnydd cyflym mewn achosion. Gweithiodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro mewn cydweithrediad â Chyngor Caerdydd, Heddlu De Cymru, Llywodraeth Cymru, Undeb Rygbi Cymru, Gleision Caerdydd ac amrywiaeth o bartneriaid, cynllunwyr a chontractwyr eraill i baratoi'r cyfleuster newydd.



Fideo araf o Ysbyty Calon y Ddraig yn cael ei hadeiladu

## Y Fyddin Binc

Gweithiodd Tîm Ysbytai Cyswllt Cyntaf Caerdydd sy'n rhan o'r Gwasanaethau Byw'n Annibynnol gyda chlinigwyr, cleifion a theuluoedd i hwyluso rhyddhau diogel o Ysbyty Calon y Ddraig. Trwy sgyrsiau "Beth sy'n Bwysig", rhoddodd y Fyddin Binc gyngor a chymorth er mwyn bodloni anghenion llesiant y cleifion, gan hyrwyddo byw'n annibynnol a chynnig ymyriadau ataliol er mwyn lleihau'r risg o orfod dod yn ôl i'r ysbyty.

Dim ond un enghraifft nodedig yw'r Fyddin Binc o'r dull partneriaeth a ddefnyddiwyd i integreiddio'r systemau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ystod yr argyfwng.



Y Fyddin Binc yn cerdded i mewn i Ysbyty Calon y Ddraig

## Rhoi gwybod am ddigwyddiadau diogelwch cymunedol

Yn fwy nag erioed, mae diogelu'n gyfrifoldeb i bawb yn sgil Covid-19. Mae partneriaid y BGC yn cydweithio'n agos i gefnogi ac amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed ac i gadw pobl yn ddiogel. Cyflwynwyd trefniadau rhoi gwybod am ddigwyddiadau diogelwch cymunedol i helpu partneriaid sy'n gweithio yng nghymunedau'r ddinas i nodi arwyddion o berygl neu gamdriniaeth ac i roi gwybod amdanynt. Canolbwyntiwyd ar y digartref, mannau cyhoeddus gan gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol, cadw llygad ar drais a cham-drin domestig a grwpiau o fudwyr sy'n agored i niwed.

## Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd

Deliodd y Porth Teuluoedd, pwynt unigol ar gyfer cael gwybodaeth, cyngor a gwasanaeth i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd, â thros 1,000 o alwadau ac ymatebodd i fwy na 300 o e-byst yn ystod y cyfnod cloi. Gweithiodd Ymgynghorwyr Cymorth i Deuluoedd gyda dros 318 o deuluoedd y daeth eu hachosion drwy'r Porth neu drwy'r Hyb Diogelu Amlasiantaethol (MASH) neu'r timau Cymorth i Deuluoedd yn y Gwasanaethau Plant. Gweithiodd y timau hyn gyda phartneriaid fel RISE, Heddlu De Cymru a Gwasanaeth Llesiant Barnardo's ar atgyfeiriadau i wasanaethau eraill. Helpodd Swyddogion Cymorth Cymunedol Cymorth Cynnar yr Heddlu i gynnal gwiriadau lles a chefnogi'r gwaith o roi cyfarpar diogelu personol i ddarparwyr gofal plant a phecynnau adnoddau i deuluoedd.

## Dull partneriaeth radical o gefnogi pobl ddigartref a phobl sy'n cysgu ar y stryd yn y ddinas

Yn dilyn dechrau'r argyfwng, roedd angen i wasanaethau ymateb yn gyflym i ddiogelu a chefnogi pobl ddigartref a phobl sy'n cysgu ar y stryd yn y ddinas. Drwy ail-bwrpasu gwestyau, cafodd y rhai a oedd yn byw mewn llety brys a'r rhai a oedd yn byw ar y stryd gartrefi a gofal gan eu galluogi i hunanynysu. Yn ogystal â chynnig diogelwch a bwyd, addaswyd gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn gyflym i fodloni anghenion. Galluogodd y bartneriaeth amlddisgyblaethol i wasanaethau ddod i mewn i'r gwestyau a'r hosteli i fanteisio ar y cyfle i fynd i'r afael â dibyniaeth ar gyffuriau. Cafodd mwy na 140 o gleientiaid eu cartrefu a dim ond pum unigolyn nad oedd modd eu symud oedd ar ôl yn cysgu ar y stryd. Mae BGC Caerdydd wedi ymrwymo i adeiladu ar y llwyddiant hwn – Does 'dim mynd nôl'.

# ‘Gyda’n Gilydd Dros Gaerdydd’

Drwy’r fenter wirfoddoli ‘Gyda’n Gilydd Dros Gaerdydd’ a gynhaliwyd ar wefan Gwirfoddoli Caerdydd y Cyngor, gwirfoddolodd dros 1,000 o bobl i helpu i sicrhau bod cyflenwadau bwyd a meddygol yr oedd mawr eu hangen yn cyrraedd y rhai mwyaf agored i niwed. Mae’r wefan hefyd wedi dod yn ffynhonnell hanfodol o wybodaeth a chymorth gan ddod â grwpiau cyd-gymorth a sefydliadau lleol eraill fel Cyngor Trydydd Sector Caerdydd at ei gilydd mewn un lle. Edrychwyd ar y wefan dros 40,000 o weithiau mewn mis.  Er mwyn ategu a chefnogi ymhellach y cynnydd cyflym mewn gwirfoddoli ledled y ddinas, datblygodd partneriaid rwydwaith o grwpiau cymunedol dibynadwy neu Sefydliadau Angori i alluogi dosbarthu negeseuon ac adnoddau allweddol fel e-ddysgu i grwpiau newydd eu sefydlu o wirfoddolwyr. Mae’r rhwydwaith hefyd yn cynnig cyfle i gyflawni’r ymateb bwyd a gydlynir gan Bwyd Caerdydd.




# Patrolau mewn parciau

Yn ystod y cyfnod cloi, roedd y gallu i fynd i barciau a mannau gwyrdd yn gynyddol bwysig er lles meddyliol a chorfforol, yn enwedig i breswylwyr sy’n byw mewn fflatiau ac eiddo eraill heb le awyr agored. Gweithiodd y Cyngor gyda’r heddlu, gan batrolio’n annibynnol ac ar y cyd saith diwrnod yr wythnos i sicrhau y cadwyd at reolau cadw pellter cymdeithasol ym mharciau Caerdydd gan ganolbwyntio ar ardaloedd y mae llawer o bobl yn eu defnyddio.



# Profi, Olrhain, Diogelu

Ledled Caerdydd a Bro Morgannwg, mae ‘Profi, Olrhain, Diogelu’, y rhaglen genedlaethol i gyfyngu ar ledaeniad Covid-19 ymysg y boblogaeth ac i ddiogelu cymunedau, yn cael ei harwain a’i chyflwyno gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro, Cyngor Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg gyda phartneriaid. Ochr yn ochr â datblygu dangosfwrdd gwyliadwriaeth Covid-19, mae data clir ac amserol yn llywio penderfyniadau ar y ffordd orau o fynd i’r afael â lledaeniad y pandemig, gan sicrhau ffocws parhaus ar atal, diagnosis a thriniaeth.




## Amcan Llesiant 1

# Prifddinas sy'n Gweithio Dros Gymru

# Cyflwyniad

Caerdydd yw prifddinas economaidd, wleidyddol a diwylliannol Cymru. Yn ogystal â chwarae rhan hanfodol wrth greu swyddi a denu buddsoddiad i Gymru, mae'n gartref i chwaraeon, gwleidyddiaeth, cerddoriaeth a'r celfyddydau, yn cynnal digwyddiadau chwaraeon a diwylliannol rhyngwladol mawr, ac yn darparu gwasanaethau cyhoeddus arbenigol i bobl y Brifddinas-ranbarth ehangach.

Mae angen prifddinas lwyddiannus i greu Cymru lwyddiannus. Mae aelodau'r BGC wedi ymrwymo i gydweithio i sicrhau y gall Caerdydd ymateb i argyfwng Covid-19 ac adfer ohono, mynd i'r afael â heriau Brexit a sicrhau bod y brifddinas yn parhau i chwarae rhan flaenllaw yn economi Cymru.




# Mesur Cynnydd:

| Dangosydd Canlyniad Lefel Dinas y mae'r BGC yn ceisio effeithio arno | | Caerdydd 2018 | Caerdydd 2019 | Caerdydd 2020 | 2020 vs 2019 | Gwaelodlin 2020 vs 2018 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfradd diweithdra | | 6.1 % | 5.2 % | 4.1 % | | |
| GYG y pen | | £29,723 | £30,629 | £32,310 | | |
| Incwm Gwario Gros Aelwyd y pen | | £16,237 | £16,558 | £17,095 | | |
| Swyddi cyflogeion â chyfradd tâl yr awr yn is na'r Cyflog Byw Gwirioneddol | | 20.7 % | 21.5 % | 17.6 % | | |
| Poblogaeth (16-64) sydd wedi cymhwyso hyd at NVQ4+ | | 47.8 % | 46.8 % | 46.4 % | | |
| % a fu i unrhyw Ddigwyddiad Celfyddydol yng Nghymru* | | 66 % | 79 % | 80 % | | |
| % a fu i unrhyw leoliadau hanesyddol yng Nghymru* | | 66 % | 71 % | 71 % | | |
| % a fu i Amgueddfa yng Nghymru* | | 54 % | 58 % | 63 % | | |
| % a gymerodd ran mewn o leiaf Un Gweithgaredd Diwylliannol yn y 12 mis diwethaf | Mwyaf difreintiedig | 80.3 % | 85.7 % | 87.2 % | | |
| | Nesaf at y mwyaf difreintiedig | 88.0 % | 92.6 % | 90.8 % | | |
| | Canol | 92.2 % | 92.6 % | 93.7 % | | |
| | Nesaf at y lleiaf difreintiedig | 94.1 % | 94.5 % | 94.7 % | | |
| | Lleiaf difreintiedig | 93.6 % | 94.9 % | 94.5 % | | |
| % yr Oedolion sy'n Siarad Cymraeg | | 9 % | 9.6 % | 9.8 % | | |

*diffiniad o fesuriad wedi ei newid rhwng blynyddoedd

# Trosolwg o waith y BGC yn 2019-20

Yn wir, mae pump o bob chwe swydd newydd yng Nghymru wedi'u creu yng Nghaerdydd dros y pum mlynedd diwethaf. **Caerdydd oedd â'r gyfradd ddiweithdra ail isaf ymysg Dinasoedd Craidd y Deyrnas Gyfunol ar ddiwedd mis Mawrth 2020.** Mae strategaeth economaidd y ddinas, 'Mwy o Swyddi, a Swyddi Gwell', a ddatblygwyd gyda mewnbwn gan y BGC, wedi parhau i hyrwyddo cyfleoedd buddsoddi a chyflogaeth sylweddol, fel Datblygiadau Cwr y Ddinas a'r Cei Canolog.

Fodd bynnag, mae cyflawni **twf cynhwysol**, lle mae'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur yn cael y cyfle i gael gwaith o ansawdd da sy'n gwella eu safonau byw, yn parhau'n her sylweddol.

Mae swyddi sy'n talu'r cyflog byw yn hanfodol wrth ymateb i'r her hon. Gweithiodd aelodau'r BGC a chyflogwyr blaenllaw ynghyd eleni i lansio **cynllun gweithredu 3 blynedd i gynyddu nifer y Cyflogwyr Cyflog Byw a achredwyd** i 150 a nifer y bobl sy'n gweithio i gyflogwyr Cyflog Byw a achredwyd i 48,000 erbyn 2022. Mae'r rhan fwyaf o aelodau'r BGC bellach yn talu'r cyflog byw neu'n gweithio tuag at gael eu hachredu. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae canran y swyddi sy'n talu uwchlaw'r Cyflog Byw Gwirioneddol wedi cynyddu o 78.5% i 82.4%.

**Oherwydd Covid-19**, bu angen gweithio mewn partneriaeth ar lefel nas gwelwyd o'r blaen. Yn ogystal â'r BGC yn dod ynghyd i helpu i sicrhau y gallai gwasanaethau hanfodol addasu a pharhau i weithredu yn ystod y cyfnod cloi, mae'r Cyngor, Heddlu De Cymru a Caerdydd AM BYTH wedi gweithio'n agos i reoli'r **broses o ailagor canol y ddinas yn ddiogel**, gan alluogi caffis, bwytai a busnesau i agor eu drysau a dechrau adferiad y ddinas.

Bydd y lefel hon o weithio mewn partneriaeth hefyd yn allweddol o ran mynd i'r afael ag **effeithiau sylweddol posibl Covid-19 ar yr economi** - cynnydd mewn diweithdra ymysg pobl ifanc yn y tymor byr i ganolig a chynnydd mewn anghydraddoldebau dros y tymor hwy. Cafwyd y gostyngiad mwyaf mewn mwy na degawd yng nghyfradd cyflogaeth y DG rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2020.
Mae nifer y bobl sy'n dweud eu bod yn ddiwaith wedi dyblu yng Nghaerdydd rhwng mis Ionawr a mis Gorffennaf 2020 a gyda disgwyl i'r cynllun 'ffyrlo' ddod i ben ym mis Medi, disgwylir i nifer y bobl sy'n ddiwaith gynyddu'n sylweddol, gan effeithio'n benodol ar y gweithwyr ieuengaf a hynaf a'r rheiny â swyddi gwaith llaw neu swyddi dros dro.

Yn ogystal â hyn, mae **Brexit** yn fygythiad arbennig i economi Caerdydd gan fod Caerdydd yn un o'r pum dinas ym Mhrydain sydd fwyaf dibynnol ar farchnadoedd yr UE ac mae Brexit hefyd yn peri risg ddifrifol i gydlyniant cymunedol, gan gynnwys y cynnydd posibl yn nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn grwpiau a gweithgareddau asgell dde pell ac eithafol. Dros y 3 blynedd diwethaf, **mae BGC Caerdydd wedi chwarae rhan flaenllaw wrth sicrhau ymateb cydgysylltiedig** â'i adroddiad 'Brexit: Goblygiadau i Gaerdydd' ar y goblygiadau i'r economi a gwasanaethau cyhoeddus a'r Grŵp Parodrwydd ar gyfer Brexit sy'n cefnogi sefydliadau, staff a defnyddwyr gwasanaethau. Yn ystod y 12 mis diwethaf, cyhoeddwyd **Cynllun Gweithredu Cydlyniant Cymunedol** y ddinas a rhoddwyd cymorth yn ei le i helpu gwladolion yr UE i sicrhau eu statws mewnfudo trwy'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.

# Cynnydd yn erbyn y camau:

| Camau / Ymrwymiadau | Diweddariad |
|---|---|
| **Cryfhau rôl Caerdydd fel prifddinas economaidd a diwylliannol Cymru,** gan gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Brifddinas-ranbarth, a sicrhau bod y Fargen Ddinesig a Metro Caerdydd yn cyflawni ar gyfer pobl Caerdydd a Chymru. | Mae'r BGC wedi parhau i gefnogi'r gwaith o gyflawni strategaeth economaidd y ddinas, **'Mwy o Swyddi, a Swyddi Gwell'.** |
| **Ceisio sicrhau bod gan Gaerdydd yr arian a'r pwerau cyllidol sydd eu hangen arni i arwain economi Cymru** a darparu seilwaith prifddinas a gwasanaethau ar ran pobl Caerdydd, y Brifddinas-ranbarth a Chymru. | Un o'r materion allweddol a nodwyd gan BGC Caerdydd yn ei adroddiad 'Brexit – Goblygiadau i Gaerdydd' yw **dyfodol ariannu rhanbarthol yng Nghymru**, sy'n parhau i achosi ansicrwydd parhaus. O ystyried natur a graddfa'r anfantais mewn rhannau o Gaerdydd, **bydd Caerdydd yn gweithio i sicrhau bod trefniadau ariannu yn y dyfodol yn adlewyrchu anghydraddoldeb yn fwy cywir ar draws y rhanbarth** a lefelau amddifadedd yn y ddinas. |
| **Deall effaith Brexit ar economi, gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau Caerdydd a datblygu ymateb y ddinas,** gan gynnwys unrhyw raglenni olynol ar gyfer ffrydiau Ariannu Ewropeaidd yng Nghymru. | Yn dilyn cyhoeddi adroddiad 'Brexit: Goblygiadau i Gaerdydd' y BGC a lansio tudalen we 'Caerdydd a Brexit' yn cyfeirio busnesau, trigolion yr UE ac unigolion at ganllawiau a chymorth, yn ystod y 12 mis diwethaf, cyhoeddwyd **Cynllun Gweithredu Cydlyniad Cymunedol** y ddinas a rhoddwyd cymorth yn ei le i helpu gwladolion yr UE i sicrhau eu statws mewnfudo trwy'r **Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.** Bydd mynd i'r afael â heriau Brexit yn parhau'n flaenoriaeth yn 2020/21. |
| **Parhau i gynnal digwyddiadau mawr yn y ddinas,** gan adeiladu ar lwyddiant Rownd Derfynol Cynghrair y Pencampwyr, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a'r sector preifat. | Cyfrannodd aelodau'r BGC dystiolaeth at **Adroddiad Ymchwiliad Gorchwyl a Gorffen Craffu 'Digwyddiadau yng Nghaerdydd'** a byddant yn ymateb i'w argymhellion er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Ddigwyddiadau Caerdydd. Ar hyn o bryd mae grŵp Gorchwyl a Gorffen y BGC wrthi'n gweithio ar adolygiad o bwysau ariannol ac opsiynau ariannu ar gyfer digwyddiadau mawr yng Nghaerdydd. |
| **Anelu at ddyblu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd erbyn 2050 trwy gefnogi'r gwaith o gyflawni Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog.** | Yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer miliwn ychwanegol o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, bydd angen i Gaerdydd gynyddu nifer y Siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd 15.9% erbyn 2022. Ni fydd y Cynnydd yn hysbys nes y cyhoeddir Cyfrifiad 2021.<br><br>Caiff adroddiad llawn ar gynnydd yn erbyn yr amcanion yng Nghynllun Gweithredu Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog ei gynnwys yn Adroddiad Blynyddol 2019-2020 y Cyngor ar Safonau'r Gymraeg. |

# Blaenoriaethau 2020/21

| Bydd y BGC yn: |
| --- |
| Parhau i weithredu **ymateb gwasanaeth traws-gyhoeddus i'r heriau a grëwyd gan Covid-19**, yn enwedig wrth ymateb i'r argyfwng economaidd sy'n dod i'r amlwg ac arwain proses hirdymor, gynaliadwy a chynhwysol o adfer. |
| Sicrhau ymateb gwasanaeth traws-gyhoeddus i'r heriau a grëwyd gan **Brexit**, gan gynnwys diwygio ariannu rhanbarthol yng Nghymru a'r DG, a chefnogi dinasyddion a staff Caerdydd gyda'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. |
| Bydd y BGC yn parhau i gefnogi'r gwaith o gyflawni **cynllun gweithredu Caerdydd Ddwyieithog.** |

Gwneud Caerdydd yn Ddinas Cyflog Byw

Caerdydd Ddwyieithog Bilingual Cardiff



BUS

## Amcan Llesiant 2

# Caerdydd yn tyfu mewn ffordd gadarn

# Cyflwyniad

Mae Caerdydd yn un o'r dinasoedd sy'n tyfu gyflymaf ym Mhrydain, a Chaerdydd yw'r awdurdod lleol sy'n tyfu gyflymaf yng Nghymru. Mae dinasoedd llwyddiannus yn cynnwys y rheiny y mae pobl eisiau byw ynddynt a chroesewir y twf hwn ac mae'n arwydd o gryfder ar gyfer y ddinas. Fodd bynnag, bydd y twf hwn yn cyflwyno'i heriau hefyd, gan roi pwysau ar seilwaith ffisegol y ddinas a'i hamgylchedd naturiol. Bydd rheoli effeithiau'r twf hwn o ran poblogaeth, y newid yn yr hinsawdd ac ansawdd aer mewn ffordd gadarn a chynaliadwy yn her hirdymor fawr i Gaerdydd. Dangosodd y cyfnod cloi yr effaith y gall cael llai o geir ar y ffyrdd a mwy o deithio llesol ei chael ar ansawdd aer. Wrth i'r ddinas ddod allan o argyfwng Covid-19, mae cyfle i sicrhau adferiad gwyrdd.




# Mesur Cynnydd:

| Dangosydd Canlyniad Lefel Dinas y mae'r BGC yn ceisio effeithio arno | Caerdydd 2018 | Caerdydd 2019 | Caerdydd 2020 | 2020 vs 2019 | Gwaelodlin 2020 vs 2018 |
|---|---|---|---|---|---|
| Allyriadau CO2 y pen (t) | 5.2 | 5.0 | 4.5 | | |
| % teithio i'r gwaith ar drafnidiaeth gynaliadwy | 45.8 % | 48.1 % | 51.2 % | | |
| Cyfartaledd crynodiad NO2 mewn lleoliadau preswyl | 21 | 17 | 16 | | |
| Parciau achrededig Baner Werdd | 12 | 13 | 15 | | |
| Eiddo a gofrestrwyd ar gyfer Gwasanaeth Rhybudd Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru | 8,480 | 8,204 | 10,027 | | |
| % y gwastraff dinesig a gaiff ei ailddefnyddio/ailgylchu/ gompostio | 58.1 % | 58.3 % | 59.2 % | | |

# Trosolwg o waith y BGC yn 2019-20

Ym mis Mawrth 2019 **datganodd Cyngor Caerdydd Argyfwng Hinsawdd**, gan gydnabod casgliadau'r Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd y byddai cyfyngu cynhesu byd-eang i 1.5˚c yn golygu y byddai angen i'r ddinas arwain ar newidiadau cyflym a phellgyrhaeddol yn y meysydd tir, ynni, adeiladau a thrafnidiaeth.

I gefnogi Strategaeth Caerdydd Un Blaned y Cyngor (i'w lansio yn Hydref 2020), mae **Bwrdd Partneriaeth Argyfwng Hinsawdd y BGC** yn arwain sgwrs dinas gyfan ar yr hyn y gallai'r ddinas a'i thrigolion ei wneud i fynd i'r afael â'r argyfwng a bydd yn gweithredu fel **pwynt cydlynu canolog** ar gyfer unrhyw brojectau a chamau gweithredu ar y cyd yn y dyfodol.  Trwy'r Bwrdd hwn, bydd aelodau'r BGC yn rhannu arfer gorau ac yn gweithio gyda'i gilydd i fynd ar drywydd **uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer sector cyhoeddus carbon niwtral.**

Yn rhan o'r ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd, mae'r BGC wedi bod wrthi'n datblygu **Papur Gwyn Trafnidiaeth Cyngor Caerdydd, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020**, sy'n cyflwyno cynllun 10 mlynedd uchelgeisiol i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, lleihau tagfeydd a gwella ansawdd aer drwy raglen fuddsoddi gwerth biliynau o bunnoedd i reilffyrdd, bysus, beicio a cherdded.

Mae **Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyhoeddi ei Ddatganiadau Ardal**. Mae pob Datganiad Ardal, a ddiwedderir bob blwyddyn, yn nodi'r prif heriau sy'n wynebu'r ardal leol benodol honno a sut y gellir rheoli adnoddau naturiol yn well er budd cenedlaethau'r dyfodol.  Mae Datganiad Ardal Canolbarth y De yn berthnasol i Gaerdydd, Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Mae'r ffocws ar adeiladu ecosystemau gwydn, pontio'r amgylcheddau trefol a naturiol - cysylltu pobl â natur a phwysigrwydd yr amgylchedd o ran gwella ein hiechyd. Bydd Datganiadau Ardal yn helpu BGCau i roi'r amgylchedd lleol wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau.

Caerdydd Un Blaned



# Cynnydd yn erbyn ein hymrwymiadau ar gyfer Caerdydd:

| Camau / Ymrwymiadau | Diweddariad |
|---|---|
| Mabwysiadu **dull integredig o ran cynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus** yng nghymunedau newydd y ddinas. | Mae'r **BGC wedi comisiynu ei Fwrdd Rheoli Asedau Partneriaeth i ddatblygu egwyddorion ar gyfer datblygu/defnyddio mannau mewn partneriaeth** a bydd yn dod yn ôl at y Bwrdd.<br><br>Mae'r camau nesaf yn cynnwys datblygu ymhellach y gwaith o uwchgynllunio cymunedau newydd ac adolygiad o dir/asedau gwasanaethau cyhoeddus. |
| Ceisio sicrhau bod **50% o'r holl siwrneiau yng Nghaerdydd drwy ddulliau teithio cynaliadwy** gan gefnogi'r broses o ddatblygu a chyflawni Strategaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy Caerdydd.<br><br>Gweithredu **ymateb dinas gyfan i lygredd** aer trwy gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflawni Strategaeth Aer Glân Caerdydd. | Cyhoeddwyd Papur Gwyn Trafnidiaeth Caerdydd - **'Gweledigaeth Trafnidiaeth hyd at 2030**, Newid sut rydym yn symud o gwmpas dinas sy'n tyfu' ym mis Ionawr 2020, gyda rhagair gan y Cynghorydd Wild, yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth a Fiona Kinghorn, Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd.<br><br>Hefyd arweiniodd y BGC y gwaith o ddatblygu'r Siarter Teithio'n Iach i Staff, a nodwyd yn fenter arfer gorau gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.<br><br>Mae'r BGC hefyd wedi **cefnogi'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Aer Glân y Cyngor**, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2019, gan dargedu gwelliannau i'r seilwaith teithio llesol yng nghanol y ddinas a rhai o'r ardaloedd mwyaf llygredig ledled Caerdydd.<br><br>Mae darpariaeth **Nextbike** ar draws Caerdydd yn parhau i dyfu, gyda gorsafoedd wedi eu sefydlu mewn lleoliadau sector cyhoeddus allweddol a gostyngiad ar aelodaeth i weithwyr y sector cyhoeddus. |
| **Sicrhau bod y ddinas yn barod am achosion o dywydd eithafol** sy'n gysylltiedig â'r Newid yn yr Hinsawdd, gan godi ymwybyddiaeth ac annog newidiadau i ymddygiad ymysg trigolion a busnesau'r ddinas a'r bobl sy'n ymweld â hi. | Roedd **Storm Dennis** (Chwefror 2020) yn ddigwyddiad llifogydd mawr a ddifrododd gartrefi a busnesau ac a achosodd dirlithriadau a thoriadau pŵer mewn llawer o ardaloedd yn ne Cymru. Rhoddodd Cyfoeth Naturiol Cymru friff i'r BGC ar yr heriau a wynebwyd a bydd yn rhoi gwybod i'r BGC am y gwersi a ddysgwyd. |
| Ceisio **lleihau ôl-troed carbon gwasanaethau cyhoeddus y ddinas** drwy weithio i sicrhau bod yr holl adeiladau cyhoeddus yn rhai sy'n effeithlon o ran ynni a gwastraff. | Mae partneriaid y BGC yn **cydweithio i adolygu'r asedau presennol (adeiladau a thir) a dylunio manylebau gwasanaethau cyhoeddus y dyfodol** gan gynnwys lleihau ôl troed carbon y ddinas. |
| **Ystyried y posibilrwydd ar gyfer cael buddsoddiadau cyhoeddus gan gwmnïau tanwydd ffosil.** | Mae **Pwyllgor Pensiynau Cyngor Caerdydd wedi ystyried Polisi Buddsoddi Newid yn yr Hinsawdd** mewn ymgynghoriad ag ymgynghorwyr annibynnol y Gronfa Bensiwn a'r cynlluniau pensiynau llywodraeth leol eraill yng Nghymru. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu polisi mewn ymateb i sylwadau aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd. Bydd canlyniadau'r gwaith yma yn cael eu dwyn gerbron y BGC i'w hystyried yn 2020/21. |

# Blaenoriaethau 2020/21

| Bydd y BGC yn: |
|---|
| **Arwain ymateb traws-ddinas i heriau'r newid yn yr hinsawdd,** sy'n cyd-fynd â lansiad gweledigaeth a chynllun cyflawni Caerdydd Un Blaned y Cyngor. |
| Ymateb i argymhellion a chanfyddiadau **Datganiad Ardal** Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer Canolbarth y De. |
| Parhau i weithredu a monitro cynnydd yn erbyn y **Siarter Teithio'n Iach i Staff.** |
| Bwrw trafodaethau yn eu blaenau i ystyried y posibilrwydd o g**ael buddsoddiadau cyhoeddus gan gwmnïau tanwydd ffosil.** |
| **Ystyried effaith llifogydd ar Gaerdydd,** a'r gwersi a ddysgwyd o lifogydd 2020. |



W
Copa
HOWE
I'M WEIRD

## Amcan Llesiant 3

# Cymunedau Diogel, Hyderus a Grymus

# Cyflwyniad

Mae cymunedau diogel, hyderus a grymus wrth wraidd ein llesiant. Mae ganddynt rôl unigryw i'w chwarae pan ddaw i'r hyn sydd bwysicaf i ni - ein hamgylchedd, ein diogelwch, ein lles, ein hiechyd a'n hapusrwydd. Yn aml mae gan gymunedau y wybodaeth, y sgiliau, y brwdfrydedd, y creadigrwydd a'r ddealltwriaeth o'r ardal leol nad oes gan ddarparwyr gwasanaethau. Ac, mewn cyfnodau o adfyd, fel pandemig Covid-19, profwyd bod cymunedau cryf yn werthfawr o ran helpu gwasanaethau i gefnogi'r rhai sy'n agored i niwed. Mae sicrhau bod cymunedau lleol yn ddiogel ac yn rymus felly'n rhan allweddol o greu dinas lwyddiannus.




# Mesur Cynnydd:

| Dangosydd Canlyniad Lefel Dinas y mae'r BGC yn ceisio effeithio arno | Caerdydd 2018 | Caerdydd 2019 | Caerdydd 2020 | 2020 vs 2019 | Gwaelodlin 2020 vs 2018 |
|---|---|---|---|---|---|
| % sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda gyda'i gilydd; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch | 53 % | - | 56 % | | |
| % sy'n gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol | 28 % | - | 21 % | | |
| % sy'n cytuno bod pobl yng Nghaerdydd yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel | 54.2 % | 48.8 % | - | | |
| % y troseddwyr sydd yn ail-droseddu | 37.3 % | 38.4 % | - | | |
| % cleientiaid y gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a nododd welliant yn ansawdd eu bywydau | 77.7 % | 77.1 % | 79.2 % | | |
| % oedolion (16+ oed) sy'n gwirfoddoli | 30 % | 28 % | 26 % | | |

"Mae cymunedau diogel, hyderus a grymus wrth wraidd ein llesiant"

# Trosolwg o waith y BGC yn 2019-20

Ym mis Medi 2019, cynhaliodd Bwrdd Arweinyddiaeth Diogelwch Cymunedol Caerdydd **gynhadledd gwasanaethau traws-gyhoeddus i ddatblygu ymhellach waith partneriaeth** o ran ei flaenoriaethau. Aeth mwy na 100 o aelodau o staff gwasanaethau cyhoeddus y ddinas i'r gynhadledd, gyda phrif areithiau gan y Cadeiryddion (Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Alun Michael a'r Cynghorydd Thorne) a gweithdai wedi'u seilio ar flaenoriaethau'r Bwrdd Arweinyddiaeth ar gyfer 2019/20, Canol y Ddinas a Chysgwyr ar y Stryd, Atal Trais, Prevent a CONTEST a Gweithio mewn Ardaloedd. Mae rhwydwaith Diogelwch Cymunedol wedi'i sefydlu, gyda dros 195 o aelodau.

Mae'r **cynlluniau peilot gweithio'n lleol wedi symud ymlaen.** Yn Sblot /Tremorfa, mae gweithgorau amlasiantaethol bellach yn gweithio gyda'r gymuned i nodi'r materion sydd bwysicaf i'w hardal ac i ddefnyddio adnoddau lleol nid yn unig i fabwysiadu dull wedi'i dargedu o fynd i'r afael â throseddau ond i gynnig cyfleoedd i gymunedau (a phobl ifanc) wneud eu hardaloedd yn lleoedd gwell i fyw ynddynt.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf **lansiwyd Uned Atal Trais De Cymru**, dull newydd o atal troseddau treisgar, gan gynnwys troseddau â chyllyll a throseddau cyfundrefnol. Gan weithio mewn partneriaeth ag iechyd y cyhoedd, bydd yr uned yn dod â Heddlu De Cymru, awdurdodau lleol, arweinwyr cymunedol a phartneriaid allweddol eraill at ei gilydd **i ddeall achosion sylfaenol troseddau treisgar ac i gyflwyno ymateb cydgysylltiedig.**

Ym mis Hydref 2019, cynhaliodd Caerdydd y **Gynhadledd Dinasoedd Cynhwysol**, lle bu arweinwyr dinasoedd gwledydd Prydain ac Ewrop yn trafod sut i sicrhau bod dinasoedd yn parhau'n gynhwysol ac yn gydlynol. Yn un o'r dinasoedd a luniodd y Rhaglen Dinasoedd Cynhwysol, mae Caerdydd wedi bod yn gweithio i sicrhau cynhwysiant newydd-ddyfodiaid, gan gynnwys dinasyddion yr UE, ffoaduriaid a cheiswyr lloches ac mae wedi datblygu ei **Gynllun Gweithredu Cydlyniant Cymunedol** i weithio gyda phartneriaid i fonitro tensiynau cymunedol, cryfhau gwydnwch at eithafiaeth gas a rhoi cymorth i dystion a dioddefwyr trosedd casineb.

Eleni hefyd, datblygwyd **Strategaeth Camfanteisio ar Blant ac Oedolion ar y cyd** i adlewyrchu themâu newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg yn y maes camfanteisio ar blant ac oedolion fel caethwasiaeth fodern. Fe'i datblygwyd gan Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro ac fe'i mabwysiadwyd gan Fwrdd Cyflawni Diogelwch Cymunedol y BGC ac mae cysylltiadau wedi'u gwneud gyda'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a'r Gwasanaethau Cymorth Cynnar. Canolbwyntir nawr ar weithio gyda phartneriaid i ddatblygu dull o **ddiogelu cyd-destunol**, gan gydnabod y gall y gwahanol berthnasoedd y mae pobl ifanc yn eu meithrin yn eu cymdogaethau, eu hysgolion ac ar-lein y tu allan i'r uned deuluol gynnwys trais a cham-drin.

Hefyd cyhoeddwyd **strategaeth ar y cyd ddiwygiedig i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched yn ne Cymru**, y'i datblygwyd ar y cyd gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl gyda phartneriaid. Y ffocws wrth symud ymlaen fydd cyflawni nodau'r strategaeth ar lefel leol ac ar draws ystod o wasanaethau e.e. gwasanaethau plant a gwaith yn ymwneud â thrais domestig a chamddefnyddio sylweddau.



Mae **Cynllun Cyflawni Rhaglen a Strategaeth Prevent Caerdydd ar gyfer 2019/21** wedi'i gyhoeddi, a'i gymeradwyo gan y Bwrdd CONTEST a'r prif risgiau a nodwyd oedd terfysgaeth ryngwladol, mwy o weithgareddau de eithafol, gweithredwyr unigol posibl yn cael eu radicaleiddio a theimladau gwrth-Prevent mewn cymunedau.   Mae Tîm Prevent yn cefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau mewn ysgolion a chymunedau yn ogystal â'r Panel Sianel amlasiantaethol sy'n ceisio diogelu unigolion agored i niwed sydd mewn perygl o gael eu camfanteisio drwy eithafiaeth a radicaleiddio.

Y llynedd, lansiwyd Gwirfoddoli Caerdydd (www.gwirfoddolicaerdydd.co.uk), gan gyfeirio trigolion Caerdydd at yr holl gyfleoedd, sefydliadau a chymorth sydd ar gael i alluogi gwirfoddoli ar draws y ddinas. Mae bellach yn cael ei ddefnyddio fel llwyfan ar gyfer 'Gyda'n Gilydd Dros Gaerdydd', menter i ddatgloi'r potensial gwirfoddoli ledled y ddinas wrth i drigolion geisio cefnogi ei gilydd yn ystod pandemig Covid-19. Gwirfoddolodd dros 1000 o bobl i helpu i sicrhau bod bwyd a chyflenwadau meddygol y mae mawr eu hangen yn cyrraedd y rhai mwyaf agored i niwed. Mae'r gwaith hwn hefyd yn cael ei hyrwyddo drwy'r wefan wirfoddoli genedlaethol www.gwirfoddoli cymru

Oherwydd Covid-19, yn fwy nag erioed o'r blaen mae **diogelu'n gyfrifoldeb ar bawb**. Mae partneriaid y BGC yn cydweithio'n agos i gefnogi ac amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed ac i gadw pobl yn ddiogel. Sefydlwyd **trefniadau rhoi gwybod am ddigwyddiadau diogelwch cymunedol** hefyd i helpu partneriaid sy'n gweithio yng nghymunedau'r ddinas i nodi arwyddion o berygl neu gamdriniaeth ac i roi gwybod amdanynt. Mae'r meysydd ffocws hyd yn hyn wedi cynnwys y digartref, diogelu mannau cyhoeddus gan gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol, cam-drin domestig a grwpiau o fudwyr sy'n agored i niwed.

# Cynnydd yn erbyn ein hymrwymiadau ar gyfer Caerdydd:

| Camau / Ymrwymiadau | Diweddariad |
|---|---|
| Buddsoddi mewn cymunedau a'u **cynnwys yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a thrydydd sector lleol, integredig mewn hybiau Cymunedol a Llesiant.** | Ymhlith y prosiectau mawr a ddatblygwyd mewn cydweithrediad â phartneriaid mae ail gam **Cynllun y Maelfa** sydd bron wedi'i gwblhau a'r **siop un stop cam-drin domestig** yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd a **Hwb Ieuenctid Creadigol newydd Butetown** sy'n barod i'w ddefnyddio. Mae bwriad hefyd i gyflwyno Hybiau Cymunedol newydd yn yr Eglwys Newydd, Rhydypennau, a'r Maelfa yn ogystal ag ehangu'r ddarpariaeth yn Hyb Trelái a Chaerau, yn bennaf gyda golwg ar fodloni anghenion penodol poblogaeth oedrannus y ddinas sy'n cynyddu. |
| Rhoi llais gwell i bobl o ran siapio gwasanaethau cyhoeddus trwy ddatblygu a chyflawni **Cynllun/iau Cynnwys y Gymuned a grëwyd ar y cyd.** | Mae **dull newydd o weithio mewn ardaloedd** yn cael ei dreialu yn Sblot /Tremorfa, gan weithio gyda chymunedau i ddatblygu dull wedi'i dargedu o fynd i'r afael â throseddau a grymuso pobl leol i wella'r ardal y maent yn byw ynddi. Mae llinellau cyffuriau, beiciau modur oddi ar y ffordd sy'n niwsans a gweithgareddau gwrthdyniadol i bobl ifanc wedi'u nodi'n flaenoriaethau. |
| **Hyrwyddo gwirfoddoli a gweithredu cymdeithasol,** gan gynnwys datblygu porth gwirfoddoli ar gyfer y ddinas. | Mae **Gwirfoddoli Caerdydd** (www.gwirfoddolicaerdydd.co.uk), **wedi dod yn borthol ar gyfer gweithgarwch dinesig**, gan gyfeirio trigolion Caerdydd at yr holl gyfleoedd, sefydliadau a chymorth sydd ar gael i alluogi gwirfoddoli ar draws y ddinas. Mae bellach yn cael ei ddefnyddio fel llwyfan ar gyfer **'Gyda'n Gilydd Dros Gaerdydd'** wrth i drigolion gefnogi ei gilydd yn ystod pandemig Covid-19. Gwnaeth 900 o bobl wirfoddoli yn ystod wythnos gyntaf y cyfnod cloi. Mae cyfleoedd yng Nghaerdydd hefyd yn cael eu hyrwyddo drwy'r wefan wirfoddoli genedlaethol www.gwirfoddoli cymru |
| **Amddiffyn ein dinasyddion mwyaf agored i niwed,** gan fabwysiadu dulliau integredig o ymdrin â masnachu pobl, camfanteisio'n rhywiol ar blant a cham-drin domestig. | Mae Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro wedi datblygu **Strategaeth Camfanteisio ar Blant ac Oedolion ar y cyd** i adlewyrchu themâu newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg yn y maes camfanteisio ar blant ac oedolion fel caethwasiaeth fodern. Mabwysiadwyd hon gan Fwrdd Cyflawni Diogelwch Cymunedol y BGC.<br>Hefyd cyhoeddwyd **Strategaeth ar y Cyd i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched' ddiwygiedig i dde Cymru,** y'i datblygwyd ar y cyd gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl gyda phartneriaid.<br>Yn ystod y cyfnod cloi, sefydlwyd **trefniadau rhoi gwybod am ddigwyddiadau diogelwch cymunedol** i helpu partneriaid sy'n gweithio yng nghymunedau'r ddinas i nodi arwyddion o berygl neu gamdriniaeth. |
| **Mynd i'r afael â radicaleiddio yn ein cymunedau** drwy sicrhau cydlyniad a datblygu ymddiriedaeth a hyrwyddo amgylchedd lle mae gan bobl yr hyder i roi gwybod am ymddygiad eithafol. | Sefydlwyd **tîm Ymgysylltu a Chydlyniant Cymunedol newydd** yng Nghyngor Caerdydd a datblygwyd Cynllun Gweithredu Cydlyniant Cymunedol i weithio gyda phartneriaid i fonitro tensiynau cymunedol, cryfhau gwydnwch at eithafiaeth gas a rhoi cymorth i dystion a dioddefwyr trosedd casineb.<br>Cymeradwywyd **Cynllun Cyflawni Rhaglen a Strategaeth Prevent Caerdydd ar gyfer 2019/21** gan fwrdd CONTEST sydd â'r nod o atal pobl rhag dod yn derfysgwyr neu rhag cefnogi eithafiaeth. |

| Camau / Ymrwymiadau | Diweddariad |
|---|---|
| **Lleihau troseddau a gwella cyfleoedd bywyd ar gyfer y grŵp 18-25 oed** drwy ddatblygu dull integredig, lleol o reoli troseddwyr. | Ym mis Mehefin 2020, cymeradwyodd BGC Caerdydd **'Ein Dyfodol Ni i Gyd'**, strategaeth bartneriaeth newydd ar gyfer sbarduno gwelliant yng Ngwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid y ddinas, gyda llywodraethiant diwygiedig yn cynnwys Cadeirydd annibynnol newydd i fwrw'r strategaeth yn ei blaen. |
| Lleihau lefelau defnyddio cyffuriau a chamddefnyddio sylweddau, a lefelau aildroseddu, trwy ddarparu **gwasanaeth camddefnyddio sylweddau wedi'i gomisiynu ar y cyd.** | Mae **prosesau cyd-gomisiynu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau** bellach ar waith, dan arweiniad y Bwrdd Cynllunio Ardal sy'n adrodd i'r Bwrdd Arweinyddiaeth Diogelwch Cymunedol. Mae Bwrdd Arweinyddiaeth Diogelwch Cymunedol Caerdydd **wedi ymateb i argymhellion a wnaed gan ymchwiliad Craffu Cyngor Caerdydd sef 'Atal Pobl Ifanc Rhag Bod yn Rhan o Ddelio Cyffuriau',** ac mae wedi comisiynu dadansoddiad pellach o sbwriel yn deillio o gyffuriau yng Nghaerdydd. |
| Sicrhau bod **newydd-ddyfodiaid o'r DG a thramor yn cael eu croesawu ac yn gallu adeiladu bywydau newydd yng Nghaerdydd**, gan gynnwys cyflawni'r prosiect 'Dinasoedd Cynhwysol'. | Cyhoeddwyd cynllun gweithredu gan COMPAS yng Ngwanwyn/ Haf 2019 ac **yn y gynhadledd a gynhaliwyd gan Gaerdydd ym mis Hydref 2019** cyhoeddwyd Fframwaith Dinasoedd Cynhwysol sy'n cynnig canllaw arfer gorau i ddinasoedd y DG ar gefnogi cymunedau mudol. Mae tîm Diogelu Caerdydd wedi gweithio mewn partneriaeth gydag eglwysi lleol, mosgiau a phartneriaid er mwyn cynghori ar bolisïau diogelu sydd ynghlwm â chynlluniau Noddi Cymunedol i ffoaduriaid. |
| Sicrhau **economi nos ddiogel a bywiog**, gan weithio mewn partneriaeth â'r Ardal Gwella Busnes. | Ym mis Ionawr 2020, **llwyddodd Caerdydd i gadw ei statws Baner Borffor** yn dilyn asesiad canol y tymor. Mae'r Faner Borffor yn galluogi'r cyhoedd i nodi'n gyflym pa drefi a chanol dinasoedd sy'n cynnig noson allan dda, amrywiol a diogel.<br><br>Yn dilyn y cyfnod cloi oherwydd Covid-19, mae'r Cyngor, Heddlu De Cymru a'r sector preifat wedi gweithio'n agos i reoli'r broses o ailagor canol y ddinas yn ddiogel ac i ddechrau adferiad y ddinas. Cytunwyd ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Cyngor a Heddlu De Cymru i sicrhau y caiff mannau cyhoeddus eu rheoli'n effeithiol. |

# Blaenoriaethau 2020/21

| Bydd y BGC yn: |
|---|
| Parhau i ddatblygu **hybiau cymunedol a lles** y ddinas. |
| **Datblygu ymhellach y model newydd o weithio mewn ardaloedd** i sicrhau Diogelwch Cymunedol |
| Parhau i gefnogi dinasyddion yr UE i fanteisio ar y **Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE** a chynnwys newydd-ddyfodiaid yng Nghaerdydd drwy'r **Rhaglen Dinasoedd Cynhwysol.** |
| Cyflawni **Cynllun Cyflawni Rhaglen a Strategaeth Prevent Caerdydd ar gyfer 2019/21** |
| Cefnogi'r gwaith o gyflawni **'Ein Dyfodol Ni i Gyd', strategaeth bartneriaeth newydd ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid y ddinas.** |
| Ymateb i argymhellion **Adroddiad y Grŵp Cynghori BAME ar Covid-19** Llywodraeth Cymru ar anghydraddoldebau hiliol. |



## Amcan Llesiant 4


---

# Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu

---

# Cyflwyniad

Mae Caerdydd eisoes yn lle da i lawer o'i phlant a'i phobl ifanc gael eu magu ynddo, gyda system ysgol sy'n gwella'n gyflym ochr yn ochr â'r manteision y mae prifddinas yn ei chynnig fel ystod eang o gyfleoedd hamdden, chwaraeon a diwylliannol. Fodd bynnag mae'r anghydraddoldeb sy'n amlwg yng Nghaerdydd yn gallu cael effaith sylweddol ar fywydau plant a phobl ifanc a'u teuluoedd, a phlant sydd dan anfantais – p'un ai drwy anabledd, tlodi, amgylchiadau teulu, salwch, esgeulustod neu gamdriniaeth – bydd angen help a chymorth penodol arnynt gan yr holl wasanaethau cyhoeddus a thrydydd sector ac yn eu cymunedau. Yn benodol, mae angen i'r ddinas fynd i'r afael ag anghydraddoldeb addysgol a chyda'r tarfu ar addysg oherwydd Covid-19, bydd y gallu i gael lle mewn ysgolion o ansawdd a chydlynu gwasanaethau'n effeithiol gan ganolbwyntio ar y plentyn yn hanfodol o ran cau'r bwlch anghydraddoldeb.




# Mesur Cynnydd:


| Dangosydd Canlyniad Lefel Dinas y mae'r BGC yn ceisio effeithio arno | | Caerdydd 2018 | Caerdydd 2019 | Caerdydd 2020 | 2020 vs 2019 | Gwaelodlin 2020 vs 2018 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| % y plant o deuluoedd incwm isel* | | 17.9 % | 18.5 % | 18.2 % | | |
| % y plant 4-5 oed sydd yn iach eu pwysau | | 76.1 % | 77.6 % | - | - | - |
| % y plant a gafodd MMR2 erbyn eu bod yn 4 oed | | 83.0 % | 84.2 % | 87.4 % | | |
| Lles meddyliol: plant a phobl ifanc ac oedolion | | 10.9 (Cymru) | - | 10.5 (Cymru) | | |
| Disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn Cyrraedd y Lefel Ddisgwyliedig (L4+) yn y Dangosydd Pwnc Craidd | % yn cyflawn | 89.4 % | - | ** | | |
| | bwlch PYADd | 13.0 | - | ** | | |
| Disgyblion Cyfnod Allweddol 4 yn Cyrraedd y Lefel Trothwy 2+ gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg | % yn cyflawn | 58.5 % | 60.4 % | 58.2 % | | |
| | bwlch PYADd | 32.8 | 30.5 | 32 | | |
| % y rhai sy'n gadael ysgol ym Mlwyddyn 11 ac 13 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant | Blwyddyn 11 | 1.6 % | 1.7 % | 1.8 % | | |
| | Blwyddyn 13 | 2.4 % | 2.0 % | 1.9 % | | |
| % y plant sy'n beicio/cerdded i'r ysgol | | 49.6 % | 50.2 % | 51.3 % | | |

* Newidiodd y mesur. Newidiodd plant o dan 20 oed i blant o dan 16 oed. Diwygiwyd ffigurau 2018 a 2019.
** Ni chyhoeddir y dangosydd mwyach

# Trosolwg o waith y BGC yn 2019-2020

Lansiwyd **gweledigaeth 2030 newydd i Addysg yng Nghaerdydd** ym mis Tachwedd 2019, i sicrhau addysg uchelgeisiol, arloesol ac sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, gan sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael budd o **addysg dda ni waeth eu cefndir.** Mae'r weledigaeth yn canolbwyntio ar ddwy thema – **partneriaid yn cydweithio ac yn cymryd cyfrifoldeb a rennir** am wneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn barod ac yn gallu dysgu a **chydnabyddiaeth o hawliau plant a phobl ifanc.** Mae hyn yn cynnwys cael cymorth yn hawdd ar gyfer eu lles emosiynol, meddyliol a chorfforol.

Mae partneriaid wedi ymrwymo i wella iechyd emosiynol a llesiant plant a phobl ifanc trwy gyfrwng Strategaeth Caerdydd sy'n Dda i Blant. Mae gwaith bellach ar y gweill i greu **pwynt mynediad unigol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl a lles emosiynol.** Mae hyn yn cynnwys datblygu proses asesu ar y cyd ar draws y timau Cymorth Cynnar a'r gwasanaethau a gyrchir drwy'r Porth i Deuluoedd, gan weithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i ddatblygu llwybrau atgyfeirio. Bydd hyn yn cefnogi ysgolion i **helpu plant yr effeithir arnynt gan brofiadau negyddol lluosog yn ystod plentyndod.**




Hefyd lansiwyd **gwasanaeth newydd Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd (CFAS)** ym mis Tachwedd 2019, sy'n dod â gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd at ei gilydd drwy **bwynt mynediad unigol – y Porth i Deuluoedd**. Dylai pob plentyn dyfu i fyny gyda chyfle cyfartal i gyflawni ei botensial - gan fyw bywyd diogel, hapus ac iach.
Fodd bynnag, mae nifer sylweddol o blant yn profi Digwyddiadau Negyddol yn ystod Plentyndod fel camdriniaeth, esgeulustod a thrawma. Yn ogystal â helpu teuluoedd i gael gafael ar wasanaethau gan gynnwys cyngor ar arian, gofal plant a budd-daliadau lles, gall y Porth drefnu i'w **hatgyfeirio at wasanaethau ymyrraeth gynnar a gwasanaethau cymorth Caerdydd** er mwyn eu helpu i fynd i'r afael â phroblemau teuluol a lleihau nifer y plant sy'n profi canlyniadau gwael yn ystod plentyndod a phan fyddant yn oedolion.

Mae **Arolwg Disgyblion ar Ddinas sy'n Dda i blant** hefyd wedi'i gwblhau gan dros 5000 o ddisgyblion o bob oed ledled Caerdydd, gan greu gwaelodlin ar gyfer barn pobl ifanc am eu hawliau ledled y ddinas. Defnyddir hyn i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael llais ac yn gallu helpu i ddylanwadu ar benderfyniadau ynghylch ble maent yn byw, y gwasanaethau y maent yn eu derbyn a datblygiad y ddinas yn y dyfodol.

**Cyngor a Chymorth i Deuluoedd** Caerdydd

Cardiff **Family Advice and Support**

# Cynnydd yn erbyn ein hymrwymiadau ar gyfer Caerdydd:

| Ymrwymiadau | Diweddariad |
|---|---|
| Gosod llais a phrofiad pobl ifanc wrth wraidd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd trwy fabwysiadu dull Hawliau Plant a **dod yn 'Ddinas sy'n Dda i Blant' UNICEF.** | Cynhaliwyd **Trafodaeth Caerdydd a'r Fro oedd yn Dda i Blant** ym mis Mawrth. Ynddi trafododd pobl ifanc ac ystod o bartneriaid o bob rhan o Gaerdydd a'r Fro sut i gynnwys pobl ifanc yn fwy a **sut i ddatblygu dull o ddarparu gwasanaethau sydd wedi ei seilio fwy ar hawliau.** Bydd yr adborth yn llywio gwaith yn y dyfodol. Mae'r ddau BGC wedi cynnal trafodaethau gyda'u Fforymau Ieuenctid lleol ynghylch cynyddu ymgysylltiad â'r BGC. Cwblhawyd **Arolwg Disgyblion ar Dinas sy'n Dda i Blant** gan fwy na 5,000 o ddisgyblion o bob oed ledled Caerdydd. Yn ystod yr Wythnos Democratiaeth Leol, cyflwynwyd y Llwyfan Democratiaeth Ddigidol, VocalEyes ar draws ysgolion yng Nghaerdydd.<br><br>Cynhyrchwyd fersiynau 'sy'n Dda i Blant' o ddogfennau strategol i roi gwybod i blant a phobl ifanc am benderfyniadau sy'n cael eu gwneud – er enghraifft 'Strategaeth Adfer o Covid-19' Cyngor Caerdydd. |
| **Mabwysiadu dull 'Ffocws ar y Teulu',** gan sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cyfuno a bod plant a theuluoedd yn cael y cymorth iawn, yn y ffordd iawn, ar yr adeg iawn, gan gynnwys:<br>• Datblygu Pwynt Mynediad Unigol ar gyfer Cymorth Cynnar<br>• Comisiynu Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf newydd<br>• Datblygu dull cydgysylltiedig o ymateb i'r 1000 diwrnod cyntaf ym mywyd plentyn | Yn dilyn ystyriaeth gan y BGC, lansiwyd **gwasanaeth newydd Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd (CFAS)**, ym mis Tachwedd 2019, sy'n dod â gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd at ei gilydd drwy **bwynt mynediad unigol – y Porth Teuluoedd** – gan ganolbwyntio ar gymorth ataliol. |
| Datblygu **dulliau sy'n seiliedig ar leoedd o integreiddio gwasanaethau cyhoeddus i blant a theuluoedd yng nghymunedau mwyaf difreintiedig y ddinas** trwy'r cynllun peilot 'Plant yn Gyntaf' yn Nhrelái a Chaerau. | Cafodd cynllun peilot 'Plant yn Gyntaf' Caerdydd ei ymgorffori yn y gwaith o ddatblygu **model cyflawni newydd ar gyfer y gwasanaethau cyngor a chymorth i deuluoedd.** (Gweler yr ymrwymiad Ffocws ar y Teulu uchod) |
| Datblygu **dulliau arloesol o nodi'r rheiny sy'n agored i Brofiadau Plentyndod Negyddol,** gan roi ymateb aml-asiantaeth ar waith i gefnogi plant a theuluoedd cyn iddynt gyrraedd pwynt argyfwng. | Caiff dulliau arloesol o nodi'r rheiny sydd mewn perygl o wynebu Profiadau Plentyndod Niweidiol eu datblygu drwy **lunio'r Strategaeth Caerdydd sy'n Dda i Blant, y model Help a Chymorth i Deuluoedd a'r model Diogelwch Cymunedol.** Caiff asesiadau risg eu cynnal ar y cyd gan y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu o ran yr atgyfeiriadau gan ddefnyddio eu cronfeydd data i nodi materion diogelu ac ymyriadau addas. |
| Gweithio gyda chymunedau ac ar draws partneriaid yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat i **fynd i'r afael â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant.** | Mae **Strategaeth Camfanteisio ar Blant ac Oedolion ar y cyd** wedi'i datblygu a chaiff ei harwain gan Fwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro. Mae tîm 'Diogelu Dy Hun' wedi ei sefydlu er mwyn sicrhau bod y plant hynny y mae angen ymyriad arbenigol Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CRhB) arnynt yn derbyn y lefel iawn o gymorth. |

| Ymrwymiadau | Diweddariad |
|---|---|
| Gwella iechyd meddwl a lles emosiynol pobl ifanc drwy weithredu **dull integredig o roi Cymorth Iechyd Emosiynol a Meddwl i Blant a Phobl Ifanc.** | Trwy gyfrwng **Strategaeth Caerdydd sy'n Dda i Blant,** mae partneriaid wedi ymrwymo i "wella iechyd emosiynol a llesiant plant a phobl ifanc". Bydd hyn yn creu pwynt mynediad unigol ar gyfer gwasanaethau lles emosiynol ac iechyd meddwl, ynghyd a gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth a lleihau'r stigma sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau hyn. |
| Cefnogi pobl ifanc anabl a'u teuluoedd trwy ddarparu'r **rhaglen Dyfodol Anabledd.** | Lansiodd Cyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro eu **Strategaeth Gomisiynu ar y Cyd gyntaf ar gyfer Oedolion ag Anabledd Dysgu yn ystod yr Wythnos Anableddau Dysgu** ym mis Mehefin 2019. Mae'n rhoi cyfeiriad clir ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau anableddau dysgu i oedolion ar draws y rhanbarth, gan gefnogi pobl ag anableddau dysgu a phroblemau iechyd meddwl i fod yn fwy annibynnol. Mae'r **Gwasanaeth Ymbarél,** sydd wedi'i ariannu gan y Gronfa Gofal Integredig yn rhan o'r ymgyrch Gweithredu Dros Blant, yn parhau i gefnogi rhieni sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae wedi addasu ei wasanaethau i weithio ar-lein gyda theuluoedd, gan helpu rhieni i ddysgu ac i ymwreiddio tasgau hanfodol i'w defnyddio wrth ofalu am eu plant gartref a lleihau'r perygl i'w plentyn fynd i'r system gofal. |
| Sicrhau bod pobl ifanc yn barod ar gyfer y byd gwaith ac yn cael cyfleoedd i gael swydd ynddo drwy gyflawni **'Addewid Caerdydd'** mewn partneriaeth â'r sector preifat a'r trydydd sector. | Mae **'Addewid Caerdydd'** yn helpu i sicrhau bod hyfforddiant, cyflogaeth neu addysg bellach ar gael i bob plentyn wrth adael yr ysgol. Mae mwy na 219 o fusnesau wedi ymgysylltu hyd yma ac mae 150 wedi gwneud addewidion penodol i gefnogi ysgolion a phobl ifanc. |

# Blaenoriaethau 2020/21

| Bydd y BGC yn: |
|---|
| **Cyflawni'r cynllun gweithredu Dinas sy'n Dda i Blant** a gwneud cynnydd tuag at achrediad UNICEF gan gynnwys ei nod o **fabwysiadu dull integredig o roi cymorth iechyd meddwl ac emosiynol i blant a phobl ifanc.** |
| **Ymwreiddio'r model cyflenwi ataliol newydd ar gyfer Cymorth i Deuluoedd** ym mhob gwasanaeth cyhoeddus, ac ymchwilio'n fwy i ganlyniadau i blant sy'n agored i niwed. |
| **Cefnogi ysgolion** i roi set o gamau craidd ar waith sydd â'r nod o wella'r cynnig bwyd, cynyddu swm y bwyd a fwyteir a chynyddu swm y gweithgareddau corfforol a wneir **er mwyn cyflawni blaenoriaethau adroddiad blynyddol Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, Symud Mwy, Bwyta'n Well.** |



The
Yr hyb
The
Yr hyb


## Amcan Llesiant 5

# Cefnogi pobl allan o dlodi

# Cyflwyniad

Mae perfformiad Caerdydd ar draws amrywiaeth o ddangosyddion llesiant yn cuddio anghydraddoldebau dwfn sydd wedi ymwreiddio ar draws y ddinas. Mae mwy na 60,000 o bobl yng Nghaerdydd yn byw ymysg y 10 % o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Gall byw mewn tlodi roi cysgod hir dros fywydau pobl - mae disgwyliad oes a dangosyddion iechyd eraill yn is yn wardiau mwyaf difreintiedig Caerdydd, mae ansawdd yr aer yn waeth, mae llai o gyfleodd i fwynhau mannau gwyrdd ac mae trosedd yn y ddinas i'w weld fwyaf yn yr ardaloedd hyn. Cafodd Covid-19 fwy o effaith ar gymunedau mwy difreintiedig o ran marwolaethau, a bydd yr effaith economaidd yn debygol o daro cymunedau tlotach yn galetach yn y tymor byr, canolig a hir.




# Mesur Cynnydd:

| Dangosydd Canlyniad Lefel Dinas y mae'r BGC yn ceisio effeithio arno | | Caerdydd 2018 | Caerdydd 2019 | Caerdydd 2020 | 2020 vs 2019 | Gwaelodlin 2020 vs 2018 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yr aelwydydd mewn tlodi (h.y. o dan 60 % o'r incwm canolrifol) fesul Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol (wedi costau tai) | | 16 % | 19 % | 16 % *<br>13 % * | | |
| Hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith hirdymor (h.y. dros 12 mis) | | 1,210 | 1,005 | 565 | | |
| Disgwyliad oes iach adeg geni (dynion a menywod) | Dynion | - | 61.2 | 61.7 | | |
| | Menywod | - | 61.1 | 61.7 | | |
| Canran y babanod isel eu pwysau geni | | 5.3 % | 4.9 % | 4.7 % | | |
| Canran yr oedolion sy'n bwyta 5 dogn neu fwy o ffrwythau a llysiau bob dydd | | 31.5 % | 31.7 % | 33.9 % | | |
| Canran yr oedolion sy'n actif am lai na 30 munud yr wythnos | | 24 % | 27.4 % | 30.7 % *<br>29.4 % * | | |
| Canran yr oedolion sy'n ysmygwyr ar hyn o bryd | | 14 % | 15.7 % | 16.2 % *<br>14.2 % * | | |
| Fforddiadwyedd Tai: Cymhareb pris tai i'r cyflog gros blynyddol canolrifol | | 6.58 | 6.74 | 6.73 | | |
| Cysgwyr stryd fesul 10,000 person | | 2.5 | 2.8 | 2.5 | | |
| Tlodi bwyd** | | - | - | - | | |
| Tlodi tanwydd | | 23.81 | - | 9 | | |

*dau ffigwr ar gael ers i Gaerdydd gyhoeddi yn 2019
**Partneriaeth Bwyd Caerdydd yn datblygu mesur drwy Holi Caerdydd

# Trosolwg o waith y BGC yn 2019-20

Yn 2019, prif ffocws Bwrdd Twf Cynhwysol y BGC fu cyflwyno model newydd y Gwasanaeth i Mewn i Waith, sy'n cynnig pwynt mynediad unigol at wasanaethau cymorth cyflogaeth yng Nghaerdydd. Mae'r Bwrdd, sydd y **Bwrdd Twf Cynhwysol a Thaclo Tlodi** erbyn hyn, yn dechrau canolbwyntio ar y gwaith o oruchwylio ystod eang o feysydd sy'n allweddol o ran trechu tlodi. Mae'r rhain yn cynnwys addysg, iechyd, cymorth i deuluoedd, gwasanaethau ieuenctid a digartrefedd. Bydd cyflogaeth a chaffael cymdeithasol-gyfrifol yn parhau'n flaenoriaeth hefyd.

Mae talu'r Cyflog Byw yn hanfodol i drechu tlodi. Ym mis Tachwedd, **cafodd Caerdydd ei chydnabod yn Ddinas Cyflog Byw** ac mae'r rhan fwyaf o aelodau'r BGC yn talu'r cyflog byw neu'n gwneud cais i gael eu hachredu, gan annog busnesau a chyflogwyr mawr eraill i ddilyn eu hesiampl.

Mae anghydraddoldebau iechyd hefyd yn ffactor allweddol sy'n dylanwadu ar dlodi. Yn dilyn adolygiad ym mis Ebrill 2019, comisiynwyd Iechyd Cyhoeddus Cymru ymhellach gan y BGC i gynnal **dadansoddiad manwl o'r prif broblemau iechyd lleol**, gan fapio data/gwybodaeth ac ymyriadau lleol a oedd eisoes ar waith. Nododd yr adroddiad gamau gweithredu presennol a chyfleoedd posibl ar gyfer gweithio'n agosach mewn partneriaeth ynghylch ysmygu, imiwneiddio, sgrinio, gweithgarwch corfforol a bwyta'n iach er mwyn atal canlyniadau iechyd gwael. Wrth symud ymlaen, **bydd y BGC yn datblygu cyfres o ymrwymiadau ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yng Nghaerdydd.**

Ym mis Hydref 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth 'Pwysau Iach: Cymru Iach', gyda'r nod o atal a lleihau gordewdra ledled Cymru. Mewn ymateb, mae BGCau Caerdydd a'r Fro ynghyd â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi cyhoeddi'r **'Cynllun Symud Mwy, Bwyta'n Dda, 2020-2023'** i gefnogi'r broses o greu poblogaeth iachach a mwy actif. Seiliwyd y Cynllun ar 10 blaenoriaeth sy'n canolbwyntio ar wella a hyrwyddo'r hyn sydd ar gael o ran bwyd a gweithgarwch corfforol, gan greu amgylcheddau iach a phoblogaeth wybodus a gan annog teithio llesol.

Bu cynnydd sylweddol y nifer y bobl ddigartref ac sy'n cysgu ar y stryd mewn llawer o ddinasoedd. Mae **mabwysiadu dull amlddisgyblaethol ers 2018, wedi lleihau'n sylweddol nifer yr unigolion sy'n cysgu ar y stryd** i'r lefel isaf ers chwe blynedd (Mawrth 2020). Fodd bynnag, mae'r ymateb i argyfwng Covid-19, sydd wedi cynnwys ailbwrpasu gwestyau i ddiogelu a chefnogi'r digartref a'u galluogi i hunanynysu, wedi sicrhau cynnydd sylweddol o ran cefnogi pobl oddi ar strydoedd y ddinas. Gwnaeth cynnig gwasanaethau yn y gwestyau a'r hosteli fel rhan o bartneriaeth amlddisgyblaethol greu cyfle i fynd i'r afael â dibyniaeth ar gyffuriau. Cafodd mwy na 140 o gleientiaid eu cartrefu a dim ond pum unigolyn nad oedd modd eu symud oedd ar ôl yn cysgu ar y stryd. Er mwyn adeiladu ar y llwyddiant hwn, mae **gweledigaeth newydd ar gyfer gwasanaethau digartrefedd** bellach yn cael ei ddatblygu sy'n canolbwyntio ar ddull **'Dim Mynd Nôl'** o gefnogi unigolion sy'n agored i niwed. Bydd y ffocws ar gynnig pwynt cydgysylltu unigol ar gyfer asesu anghenion amlasiantaethol, atgyfeirio'n uniongyrchol at ddarpariaeth ailgartrefu gyda chymorth priodol a gwell llety gyda chymorth dwys 24/7 yn cael ei roi ar y safle.

Fel **ffordd uniongyrchol o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chefnogi pobl allan o dlodi,** mae Hybiau Cymunedol Caerdydd wedi bod yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i gynyddu nifer y bobl sy'n manteisio ar brydau ysgol am ddim ac i gyflwyno'r rhaglen gyfoethogi gwyliau'r ysgol "Bwyd a Hwyl" a'r fenter Talebau Cychwyn Iach. Bydd l**ansio Strategaeth Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd 2019-2023** yn helpu gyda'r gwaith parhaus o ddatblygu'r rhaglen hon sy'n cynnwys datblygu Hybiau Ieuenctid arbenigol a gweithio gyda'r adran Iechyd i greu Hybiau Iechyd a Llesiant newydd. Bydd y blaenoriaethau'n cynnwys cefnogi gwirfoddoli, caffael sgiliau ar gyfer bywyd, iechyd a llesiant a darparu gwasanaethau cyngor a hyfforddiant digidol.

# Cynnydd yn erbyn ein hymrwymiadau ar gyfer Caerdydd:

| Ymrwymiadau | Diweddariad |
|---|---|
| Ceisio darparu mwy o swyddi â thâl gwell yng Nghaerdydd drwy weithredu fel **eiriolwr ar gyfer y fenter Cyflog Byw Gwirioneddol** ar draws cyflogwyr y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, ac ystyried hyn wrth gomisiynu ac ariannu. | Ym mis Tachwedd 2019, **cafodd Caerdydd ei chydnabod yn Ddinas Cyflog Byw** ac mae'r rhan fwyaf o aelodau'r BGC yn talu'r cyflog byw neu'n gwneud cais i gael eu hachredu. |
| **Cefnogi pobl sydd wedi'u heffeithio'n negyddol gan ddiwygiadau lles** drwy weithredu dull integredig yn lleol mewn Hybiau Cymunedol a Llesiant. | Mae holl staff rheng flaen yr Hybiau Cymunedol a Llesiant wedi eu hyfforddi i nodi pryd bydd angen i deuluoedd hawlio Credyd Cynhwysol. Mae **arweiniad, cyngor a chymorth wedi'u teilwra** ar gael yn yr holl Hybiau a lleoliadau allgymorth ledled y ddinas. Yn ystod 2019/20 **daethpwyd o hyd i fwy na £15.8m o fudd-daliadau ychwanegol.** |
| Datblygu **dull integredig o weithredu gwasanaethau cyflogaeth yng Nghaerdydd**, gan helpu pobl i ddod o hyd i waith, aros mewn gwaith a symud ymlaen yn y gwaith, gan weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau a darparwyr hyfforddiant. | Mae **Gwasanaeth i Mewn i Waith Caerdydd** wedi dod â tua 40 o wasanaethau cyflogaeth ynghyd mewn un lle i helpu i gefnogi pobl i gael a chadw swydd dda, tra hefyd yn cefnogi'r rheiny yr effeithir arnynt gan Ddiwygiadau Lles a chyflwyno'r credyd cynhwysol. |
| Sicrhau bod **rhaglenni atal tlodi** blaenllaw Llywodraeth Cymru (Cynlluniau Gadael Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Chefnogi Pobl) wedi'u dylunio a'u **cyflwyno mewn ffordd gydlynol.** | Bu gwerthusiad annibynnol o **Raglen Ariannu Hyblyg Llywodraeth Cymru** ym mis Tachwedd 2019 a chefnogodd y gwerthusiad y gwaith o ddefnyddio a datblygu'r rhaglen yn barhaus. Mae'r rhaglen yn galluogi awdurdodau lleol i ddefnyddio dull strategol o ymyrryd, atal a chefnogi'n gynnar drwy ddefnyddio gwahanol grantiau yn hyblyg, yn enwedig o ran cynllunio a chomisiynu ar y cyd, er mwyn cefnogi canlyniadau i drigolion lleol yn well. |
| Ceisio **atal cysgu ar y strydoedd** yn y ddinas a **mynd i'r afael ag achosion o ddigartrefedd.** | Mae mabwysiadu dull amlddisgyblaethol ers 2018, wedi lleihau'n sylweddol nifer yr **unigolion sy'n cysgu ar y stryd** i'r **lefel isaf ers chwe blynedd a hynny ym mis Mawrth 2020.** Fodd bynnag, pan gafodd gwestyau eu defnyddio **yn ystod y cyfnod cloi** i gartrefu'r digartref, dim ond 5 unigolyn nad oedd modd eu symud oedd ar ôl yn cysgu ar y stryd a bu **nifer heb ei debyg o'r blaen yn dechrau derbyn triniaeth ar gyfer bod yn gaeth i gyffuriau.** Er mwyn adeiladu ar y llwyddiant hwn, mae **gweledigaeth newydd ar gyfer gwasanaethau digartrefedd** yn cael ei datblygu i wella atal, i asesu angen ac i sicrhau bod y llwybrau llety cywir ar waith. |
| Ceisio cynyddu effaith gwasanaethau cyhoeddus fel cyflogwyr angor ar **drechu tlodi trwy addasu polisïau cyflogaeth** ac ystyried dulliau gwasanaeth traws-gyhoeddus ar gyfer polisiau 'Cyfrifoldeb Cymdeithasol' a 'Manteision Cymunedol.' | Ym mis Medi 2019, cafodd y BGC ei friffio ar gyhoeddiad **Datganiad Caethwasiaeth Fodern y Cyngor.** Mae'r datganiad yn canolbwyntio ar ymchwilio i gadwyni cyflenwi i sicrhau nad oes unrhyw gysylltiad â chaethwasiaeth fodern, ac i annog staff a chyflogeion cyflenwyr a chontractwyr i chwythu'r chwiban ar gyflogaeth anfoesegol, ecsbloetio a masnachu pobl. Mae **Fforwm Atal Caethwasiaeth Amlasiantaethol Caerdydd a'r Fro** yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn. |

| Ymrwymiadau | Diweddariad |
|---|---|
| Cefnogi **Partneriaeth Bwyd dinas-eang** i sicrhau y gall dinasyddion gael gafael ar fwyd cynaliadwy, iach a fforddiadwy. | Ym mis Tachwedd 2019, cytunodd Caerdydd ar ei Strategaeth Fwyd. Y nod craidd fydd gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo'r gallu i gael gafael ar fwyd iach a lleol gydag ôl troed carbon isel. Bydd hyn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni **'Cynllun Symud Mwy, Bwyta'n Dda' Caerdydd a'r Fro** a fabwysiadwyd gan y BGC ym mis Ionawr 2020, gan sicrhau gwell cynnig bwyd mewn lleoliadau addysgol a chymunedau ledled y ddinas. |
| Cynnal ymchwil ychwanegol ar sut i f**ynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd** yn y ffordd orau a lleihau'r bwlch o ran disgwyliad oes iach. | Ym mis Hydref 2019, derbyniodd y BGC **adroddiad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar anghydraddoldebau iechyd yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.** Nododd yr adroddiad gamau gweithredu presennol a chyfleoedd posibl ar gyfer gweithio'n agosach mewn partneriaeth ynghylch ysmygu, imiwneiddio, sgrinio, gweithgarwch corfforol a bwyta'n iach. Cytunodd y BGC ar argymhellion yr adroddiad. |
| Gweithio i gefnogi'r gwaith o gyflwyno **Strategaeth Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol Caerdydd** i gynyddu cyfranogiad cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol, yn enwedig yng nghymunedau mwyaf difreintiedig ein dinas. | I fynd i'r afael â'r epidemig gordewdra a datblygu gwydnwch at argyfyngau iechyd fel Covid-19, lansiwyd **Cynllun 'Symud Mwy, Bwyta'n Dda 2020-23' Caerdydd a'r Fro gan BGCau Caerdydd a'r Fro** a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i helpu i greu poblogaeth iachach a mwy actif. Er mwyn helpu i gyflawni'r cynllun hwn, bydd **Strategaeth Chwaraeon, Iechyd a Gweithgarwch Corfforol Caerdydd yn cael ei datblygu i sicrhau'r cyfranogiad mwyaf posibl mewn gweithgarwch corfforol** gan helpu i greu cymunedau iach. |

## Blaenoriaethau 2020/21

| Bydd y BGC yn: |
|---|
| Gweithio tuag at sicrhau bod gan yr holl aelodau **achrediad Cyflog Byw.** |
| Arwain y gwaith o gyflawni **'Cynllun Symud Mwy, Bwyta'n Dda' 2020-2023** Caerdydd a'r Fro. |
| Helpu i gyflawni **Strategaeth Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd 2019-2023**, gan ddatblygu hybiau llesiant a chymunedol ymhellach i fod yn gyfrwng i'r gwasanaethau cyhoeddus integredig gyda'r nod o wella canlyniadau iechyd a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau. |
| Helpu i hyrwyddo a datblygu dulliau o sicrhau 'Cyfrifoldeb Cymdeithasol', 'Manteision Cymunedol' a 'Chyflogaeth Foesegol' gan gyflawni **strategaeth Caffael Cymdeithasol Caerdydd** |




## Amcan Llesiant 6

# Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn

# Cyflwyniad

Mae sut mae cymdeithas yn trin pobl wrth iddynt fyd yn hŷn yn adlewyrchu ei gwerthoedd a'i hegwyddorion, ac yn anfon neges bwysig i genedlaethau'r dyfodol. Mae argyfwng Covid-19 wedi tynnu sylw at y cysylltiad rhwng unigedd ac iechyd meddwl/corfforol a pha mor bwysig yw cael gafael ar wasanaethau a rhwydweithiau cymunedol, yn enwedig i iechyd a lles y genhedlaeth hŷn. Uchelgais Caerdydd yw i'r ddinas fod yn lle gwych i heneiddio, lle mae pobl hŷn wedi'u grymuso'n fwy ac yn iachach ac yn hapusach, gan dderbyn cymorth gan wasanaethau cyhoeddus a chymunedol rhagorol ac wedi'u hintegreiddio i bob rhan o fywyd cymunedol.




# Mesur Cynnydd:

| Dangosydd Canlyniad Lefel Dinas y mae'r BGC yn ceisio effeithio arno | Caerdydd 2018 | Caerdydd 2019 | Caerdydd 2020 | 2020 vs 2019 | Gwaelodlin 2020 vs 2018 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran y bobl 65+ oed a nododd fod eu hiechyd cyffredinol yn dda iawn neu'n dda | | 58.8 | 56.1 | | |
| Canran y bobl 65+ a nododd eu bod yn teimlo eu bod yn rhan o unrhyw benderfyniadau a wneir am eu gofal a'u cymorth | 76.8 | 78.4 | 78.9 | | |
| Canran y bobl 65+ oed a nododd eu bod wedi derbyn y wybodaeth neu'r cyngor cywir pan fo'i angen arnynt | 82.5 | 80.2 | 77.7 | | |
| Canran yr oedolion 65+ oed a nododd eu bod yn byw yn y cartref cywir iddyn nhw | 89.2 | 86.2 | 86.7 | | |
| Canran y bobl 65+ oed a nododd eu bod yn unig | 83.5 | 86.0 | 84.8 | | |
| Boddhad bywyd ymhlith pobl hŷn | - | 79.5 | 84.6 | | |

# Trosolwg o waith y BGC yn 2019-20


Mae **dinasoedd o blaid pobl hŷn** yn lleoedd lle caiff pobl hŷn eu gwerthfawrogi, eu cynnwys a'u parchu ym mhob rhan o fywyd y ddinas. Aeth Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru i gyfarfod y BGC a gynhaliwyd yn y ganolfan dementia arbenigol newydd ei hadnewyddu yn Y Rhodfa Fawr (Grand Avenue) ym mis Ionawr 2020 a nododd yr uchelgeisiau ar gyfer creu Cymunedau o Gyfleoedd i'r Henoed yng Nghaerdydd a ledled Cymru. Mae'r BGC bellach yn ystyried ffyrdd posibl o fodloni'r safonau ar gyfer dinasoedd o gyfleoedd i'r henoed a osodwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd. Bydd Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd 'Ailddychmygu Heneiddio' yn llywio'r gwaith hwn.

Mae Bwrdd Gwella Canlyniadau i Oedolion y BGC wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at ddarparu gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles integredig lleol sy'n seiliedig ar gryfderau. Yn benodol, mae darpariaeth gofal cartref yn cael ei hailfodelu'n dimau cymunedol, gyda phob tîm yn cael ei neilltuo i ddatblygu rhwydwaith wedi'i reoli ar gyfer cydlynu gofal a meithrin gallu mewn ardaloedd clwstwr meddygon teulu.

Heneiddio'n Dda yng Nghymru
Ageing Well in Wales

Mae **Cynllun Peilota'r Model Clwstwr Carlam** bellach ar waith yng nghlystyrau meddygon teulu Caerau/Trelái/Treganna/Glan-yr-afon. Mae meddygon teulu, gofal cymdeithasol a'r 3ydd Sector yn helpu i roi **cymorth anfeddygol/cyfannol i drigolion fel na fyddant yn gorfod mynd yn ôl i'r ysbyty.** Rhoddir gwybod i'r hyb cymunedol integredig pan gaiff claf ei ryddhau o'r ysbyty a chynhelir cyfarfodydd amlasiantaethol wythnosol wedyn i sicrhau bod y claf yn cael ei gefnogi'n llawn o ran ei iechyd corfforol a'i les cyffredinol.

Mae'r gwasanaethau oedolion hefyd wedi bod yn canolbwyntio ar **lesiant a arweinir gan y gymuned** trwy'r gwasanaeth cysylltwyr. Mae cyflwyno pum gweithgaredd cymunedol newydd wedi arwain at ganran sylweddol o gyfranogwyr yn defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl ac yn teimlo y gallant gaely cymorth sydd ei angen arnynt. Sefydlwyd **Grŵp Gorchwyl a Gorffen Iechyd Meddwl** i edrych ar ddatrysiadau amlasiantaeth i bobl sy'n syrthio drwy'r bwlch rhwng gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol ac eilaidd.



# Cynnydd yn erbyn ein hymrwymiadau ar gyfer Caerdydd:

| Ymrwymiadau | Diweddariad |
|---|---|
| Adeiladu ar y **gwasanaethau Pwynt Cyswllt Cyntaf a'r Pwynt Mynediad Unigol**, datblygu ymhellach bwyntiau mynediad wyneb yn wyneb, dros y ffôn ac ar-lein hygyrch ar gyfer y rhanbarth, i weithwyr proffesiynol a'r cyhoedd. | Mae 'Ewch â Fi Adre' bellach yn **wasanaeth ysbyty Pwynt Cyswllt Cyntaf yn Ysbyty Athrofaol Cymru.** Gan weithio mewn partneriaeth â'r sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Trydydd Sector, mae'r tîm yn rhoi cymorth cyfannol wedi'i deilwra sy'n bodloni anghenion lles yr unigolyn, gan gefnogi byw'n annibynnol, y broses o ryddhau cleifion a lleihau'r risg o orfod aros yn yr ysbyty. Yn ystod y Cyfnod Cloi, cefnogodd y gwasanaeth gleifion i ddod o hyd i leoliadau priodol ar ôl cael eu rhyddhau o Ysbyty Calon y Ddraig. |
| Datblygu cymunedau cryf â **gwasanaethau lleol, rhwydweithiau seilwaith a chymunedol** cadarn i fodloni anghenion lleol lle mae pobl hŷn yn byw. | Cymeradwywyd **Strategaeth Pobl Hŷn Caerdydd** ym mis Mawrth 2019. Caiff y gwaith o weithredu'r strategaeth ei oruchwylio gan Fwrdd Rhaglen Iechyd, Tai a Gofal Caerdydd a'r Fro.<br><br>Mae darpariaeth gofal cartref yn cael ei hailfodelu'n **dimau cymunedol**, gyda phob tîm yn cael ei neilltuo i ddatblygu rhwydwaith wedi'i reoli ar gyfer cydlynu gofal a meithrin gallu mewn ardaloedd clwstwr meddygon teulu.<br><br>Mae **Cynllun Peilota'r Model Clwstwr Carlam** bellach ar waith yng nghlystyrau meddygon teulu Caerau/Treláí/Treganna/Glan-yr-afon. Mae meddygon teulu, gofal cymdeithasol a'r 3ydd Sector yn helpu i roi cymorth anfeddygol/cyfannol i drigolion fel na fyddant yn gorfod mynd yn ôl i'r ysbyty.<br><br>Mae cyflwyno pum gweithgaredd cymunedol newydd sy'n rhan o'r gwasanaeth cysylltydd lles wedi arwain at ganran sylweddol o gyfranogwyr yn defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl ac yn teimlo y gallant gael y cymorth sydd ei angen arnynt. |
| Datblygu a chynnig ystod o ddewisiadau llety yn y dyfodol i ateb y galw a **galluogi pobl i aros** gartref. | Mae'r gwaith o weithredu'r **Strategaeth Tai Pobl Hŷn** yn parhau i gael ei wneud ledled Caerdydd gan Fwrdd Rhaglen Iechyd, Tai a Gofal Caerdydd a'r Fro. Cafwyd caniatâd cynllunio yng **nghynlluniau pobl hŷn Maelfa a Llaneirwg er mwyn cynnig dros 100 o fflatiau pobl hŷn 'gofal barod'.** Mae'r gwaith o ddatblygu manyleb gofal-barod wedi gosod safon uchel ar gyfer dewisiadau tai hyblyg, deniadol sydd wedi'u cynllunio'n dda i bobl hŷn. |
| **Datblygu gwell arferion asesu, diagnosio a chynllunio gofal** sy'n seiliedig ar gydweithredu gwirioneddol â phobl hŷn a'u gofalwyr a'u teuluoedd, fel bod eu cynllun yn adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw ac yn cyflawni'r canlyniadau y maen nhw'n eu ceisio. | Mae **Pwynt Mynediad Unigol ar gyfer Rhyddhau** wedi cyflwyno dull brysbennu amlddisgyblaethol ar gyfer rhyddhau cleifion, y gallai fod angen rhywfaint o gymorth neu ofal arnynt i ddychwelyd adref, o'r ysbyty'n ddiogel. |

| Ymrwymiadau | Diweddariad |
|---|---|
| **Gwneud Caerdydd yn ddinas sy'n deall dementia** | **Mae hyfforddiant Cyfeillion Dementia** yn parhau i gael ei gyflwyno ar draws sefydliadau'r BGC.<br><br>Ar ôl cyfarfod â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru ym mis Ionawr 2020, mae BGC Caerdydd yn ystyried y safonau gofynnol ar gyfer **dinasoedd o gyfleoedd i'r henoed** a osodwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd.<br><br>Mae **gwefan yn cael ei datblygu** i'r rheiny sy'n byw â dementia, eu gofalwyr a'u teuluoedd yn ogystal â busnesau sydd eisiau cynorthwyo'r rheiny â dementia'n well. Cafwyd 266 o ymatebion gan bobl sy'n byw gyda dementia i ymgynghoriad. Bydd y wefan yn cynnig dolenni i gyngor a gwasanaethau fel Gwasanaethau Cymdeithasol, Teleofal, Gwasanaethau Byw'n Annibynnol, Hybiau a Phryd ar Glud. |

## Blaenoriaethau 2020/21


| Bydd y BGC yn: |
|---|
| **Helpu i weithredu Strategaeth Pobl Hŷn Caerdydd** - Caiff y gwaith o weithredu'r strategaeth ei oruchwylio gan Fwrdd Rhaglen Iechyd, Tai a Gofal Caerdydd a'r Fro. |
| **Datblygu ymagwedd bartneriaeth at lesiant, iechyd a gofal y gweithlu.** |
| Diwygio llwybrau ar gyfer **gwasanaethau iechyd meddwl oedolion**, o ddiogelu i ddarpariaeth acíwt. |



## Amcan Llesiant 7

# Moderneiddio ac Integreiddio ein Gwasanaethau Cyhoeddus

# Cyflwyniad




Mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd yn mynd drwy gyfnod o newid cyflym. Mae gwasanaethau'n gorfod addasu mewn ymateb i'r twf cyflym yn y boblogaeth, gofynion a disgwyliadau newidiol dinasyddion, canlyniadau tlodi a chyfyngiadau adnoddau sylweddol a pharhaus.

Ni all unrhyw wasanaeth unigol ateb yr heriau y mae'n eu hwynebu ar ei ben ei hun.  Mae angen dulliau newydd, integredig o ddarparu gwasanaeth, a nodweddir gan ysgogiad i ddadansoddi ac ail-siapio ffiniau sefydliadol, systemau a diwylliannau o amgylch anghenion y rheiny sy'n derbyn y gwasanaeth a'r cymunedau y maent yn byw ynddynt.

Mae'r ymateb i Covid-19 wedi dangos yr hyn sy'n bosibl gyda lefelau digynsail o gydweithio a newid i'r defnydd o dechnoleg er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i gael eu darparu. Mae gan ddarparwyr gwasanaeth yng Nghaerdydd hanes o weithio ynghyd, ond mae angen i hyn gynyddu eto i greu diwylliant o wasanaeth cyhoeddus ag un diben – i ddarparu ar gyfer pobl Caerdydd.


# Mesur Cynnydd:

| Dangosyddion canlyniad lefel dinas y mae'r BGC yn ceisio effeithio arnynt | Caerdydd 2018 | Caerdydd 2019 | Caerdydd 2020 | 2020 vs 2019 | Gwalodlin 2020 vs 2018 |
|---|---|---|---|---|---|
| I ba raddau rydych chi'n cytuno bod ansawdd y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd yn gyffredinol dda? | 65.5 | 71.9 | 64.3 | | |

# Trosolwg o waith y BGC yn 2019-20

Mae map ffordd ar gyfer defnyddio technoleg a data i wella bywydau trigolion ac ymwelwyr â Chaerdydd yn cael ei ddatblygu. Bydd **Caerdydd Glyfar** yn annog cydweithio a meddwl arloesol wrth fynd ar drywydd dinas gysylltiedig, gynaliadwy ac iach. Bydd y map yn helpu partneriaid i fanteisio ar gyfleoedd i ddenu busnesau newydd i Gaerdydd ac i ddarparu **gwasanaethau cyhoeddus mwy effeithlon a gwell**, er enghraifft cefnogi pobl i aros yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Bydd hefyd yn hyrwyddo'r gwaith o gyflawni **seilwaith ac amgylcheddau adeiledig** mwy clyfar i gefnogi dulliau teithio cynaliadwy, gwell ansawdd aer a dinas carbon isel.

Mae tîm Ymgysylltu a Chydlyniant Cymunedol Cyngor Caerdydd a sefydlwyd yn ddiweddar yn arwain y gwaith o gyflawni **strategaeth gyfranogi uchelgeisiol** sydd â'r nod o gynyddu ymgysylltiad y cyhoedd â democratiaeth leol a phrosesau gwneud penderfyniadau, gyda ffocws penodol ar gynyddu cyfranogiad gan y rhai mwyaf difreintiedig, mwyaf datgysylltiedig a grwpiau nas clywir yn aml mewn cymdeithas.




Er mwyn llywio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn erbyn yr uchelgeisiau hyn, aeth sefydliadau BGC i'r **Seminar Dinas Deg Caerdydd** ym mis Ionawr, gan gyfrannu at Arolwg Dinas Deg a Chynhwysol Cyngor Caerdydd. Gofynnodd yr arolwg am farn trigolion ar ba mor deg yw Caerdydd fel lle i fyw, gweithio ac astudio ac ar Amcanion Cydraddoldeb Strategol Caerdydd am y 3 blynedd nesaf.

Nod **Polisi Caffael Cymdeithasol-Gyfrifol y Cyngor** yw sicrhau bod y Cyngor yn manteisio i'r eithaf ar y manteision y gellir eu cyflawni i gymunedau drwy gaffael. Mae blaenoriaethau'n cynnwys **cyflogaeth foesegol** a lleol, gan weithio gyda busnesau i **gefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed** yn ein cymunedau a diogelu'r **amgylchedd**. Mae hefyd yn ymwneud â manteisio ar gyfleoedd sy'n **annog gweithlu lleol ac amrywiol.** Mae'r BGC wedi ymrwymo i weithio tuag at sicrhau gwasanaethau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector y mae eu gweithluoedd yn cynrychioli'r ddinas a'i chymunedau. Yn 2020, yn ogystal â chefnogi digwyddiad gyrfaoedd yn ein cymunedau a gynrychiolir leiaf, bydd y Cyngor yn datblygu **"Fframwaith Gwerth Cymdeithasol"** ar gyfer asesu contractau gan weithio gyda phartneriaid yn y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i gael y gwerth cymdeithasol a chymunedol gorau o'r £430m y mae'r Cyngor yn ei wario bob blwyddyn.



# Cynnydd yn erbyn ein hymrwymiadau ar gyfer Caerdydd:

| Ymrwymiadau | Diweddariad |
|---|---|
| Mabwysiadu **dull gwasanaethau traws-gyhoeddus o ran rheoli eiddo ac asedau cyhoeddus.** | Yn dilyn Adolygiad Gwneud Asedau i Weithio (MAWR) Llywodraeth Cymru ac Ystadau Cymru, mae Gweithgor Asedau Cenedlaethol Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro wedi cynnal **adolygiad o asedau i nodi cyfleoedd ar gyfer darparu gwasanaeth partneriaeth newydd.** Cyflwynwyd hwn i'r BGC a chytunwyd y dylid llunio egwyddorion ar gyfer defnyddio mannau mewn partneriaeth i'w hystyried gan y Bwrdd.<br>Ystyriodd y BGC gynlluniau ar gyfer ailddatblygu safle Ysbyty Athrofaol Cymru ym mis Ionawr a sut y bydd y cynlluniau hyn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni strategaethau iechyd allweddol. |
| Datblygu gweithlu gwasanaeth cyhoeddus y ddinas a **sicrhau bod ganddo'r sgiliau priodol** i fodloni anghenion a gofynion newidiol. | Caiff cynigion a ddatblygwyd ar gyfer **Digwyddiadau Hyfforddi Cydweithredol yn y Sector Cyhoeddus** ar gyfer 'rheolwr canolradd' ar draws sefydliadau cyhoeddus a'r trydydd sector eu haildrafod.<br>Mewn ymateb i Covid-19, mae aelodau'r BGC wedi gweithio gyda'i gilydd, gan adleoli staff dros dro a chynnal hyfforddiant i sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn cael eu darparu. |
| Datblygu **dull cydunol o ymgynghori, ymgysylltu ac ymchwilio** (wedi'i integreiddio â'r Cynlluniau Cynnwys y Gymuned a amlinellir yn Amcan 3). | Mae aelodau'r BGC yn parhau i gefnogi ei gilydd o ran cyfathrebu, ymgynghori ac ymgysylltu, yn enwedig yn ystod argyfwng Covid-19.<br>Aeth sefydliadau BGC i'r **Seminar Dinas Deg Caerdydd** diweddar ym mis Ionawr, gan gyfrannu at Arolwg Dinas Deg a Chynhwysol Cyngor Caerdydd. Gofynnodd yr arolwg am farn trigolion ar ba mor deg yw Caerdydd fel lle i fyw, gweithio ac astudio ac ar Amcanion Cydraddoldeb Strategol Caerdydd am y 3 blynedd nesaf. Bydd y BGC yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r 'Strategaeth Ymgysylltu â Dinasyddion' statudol newydd yn 2020/21. |
| Ceisio darparu **gwasanaethau cyhoeddus a thrydydd sector a gweithlu sy'n cynrychioli'r ddinas a'i chymunedau**, yn enwedig cymunedau BAME. | Wrth geisio cyflawni'r ymrwymiad hwn, bydd y BGC yn ymgysylltu â **Thasglu Cydraddoldeb Hiliol y Cyngor** a gaiff ei alw ynghyd yn y dyfodol agos i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail hil ac i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yn y ddinas mewn cydweithrediad â phartneriaid yn y sector cyhoeddus a chyflogwyr mawr. |

# Blaenoriaethau 2020/21

| Bydd y BGC yn: |
|---|
| Cyfrannu at y gwaith o **ddatblygu dulliau Dinas Glyfar** o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a seilwaith y ddinas |
| Ystyried **cydlyniant a chynnwys y gymuned**, yn enwedig gwaith i gynyddu cyfranogiad gan grwpiau 'nas clywir yn aml' ganddynt. |
| Sicrhau bod y **grwpiau nas clywir yn aml ganddynt yn cymryd rhan** yng Nghyfrifiad 2021. |
| Y BGC i ymgysylltu â'r **Tasglu Cydraddoldeb Hiliol** ar wahaniaethu hiliol a chydraddoldeb hiliol yn y ddinas. |